CYNGOR GWYNEDD COUNCIL



# Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd

## *2018/19*



# Cynnwys

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| **Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd** | 3 |
| **Taith 2018/19** | 4 |
| **Cyflwyniad** | 5 |
| **Ein Gwariant** | 7 |
| **Rhan 1 - Blaenoriaethau Gwella** | 8 |
| **Rhan 2 - Adroddiadau'r Adrannau** | |
| Addysg | 29 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 31 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 35 |
| Economi a Chymuned | 39 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 42 |
| Amgylchedd | 45 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 48 |
| Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth | 50 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 53 |

**Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn iaith neu fformat arall ffoniwch 01766 771000 neu ebostiwch cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru**

Graffeg "designed by Freepik"

**Os ydych angen mwy o wybodaeth am yr Adroddiad hwn cysylltwch â Thîm Cefnogi Busnes y Cyngor drwy ffonio 01766 771000 neu cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru**

# Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd



Mae'n bleser gen i gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n disgrifio a mesur y gwaith yr ydym fel Cyngor wedi ei gyflawni yn ystod 2018/19 er mwyn ceisio gwireddu dyheadau Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023.

Mae'r Adroddiad Perfformiad hwn yn adlewyrchu diwyg a chynnwys Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 er mwyn ei gwneud hi'n haws i ddilyn y cynnydd wnaed yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun hwnnw. Rydym am gynnig darlun clir, cywir a theg i chi o lwyddiannau'r Cyngor dros y flwyddyn ond hefyd byddwn yn amlygu'r meysydd hynny ble na fuom mor llwyddiannus. Mae hi yr un mor bwysig i ni ddysgu a newid ein trefniadau i'r dyfodol ble fo angen er lles ein trigolion.

Blwyddyn arall o lymder ariannol oedd 2018/19 yn anffodus. Blwyddyn arall o doriadau yn ein cyllideb o ganlyniad i bolisïau ariannol San Steffan a setliad ariannol siomedig gan Lywodraeth Cymru, a blwyddyn arall o geisio canfod pob ffordd posib o barhau i gynnal gwasanaethau angenrheidiol heb arian digonol.

Diolch i greadigrwydd a dyfalbarhad ein staff a'n haelodau, rydym fel Cyngor wedi gallu addasu nifer o'n gwasanaethau er mwyn dygymod â chyllideb sy'n lleihau tra, ar yr un pryd, yn sicrhau mai anghenion ein trigolion sy'n ganolog i bob penderfyniad a gweithred. Y meddylfryd yma – Ffordd Gwynedd – sydd wedi ein helpu i greu 5 Tîm Lleol ble mae trawstoriad o weithwyr y Cyngor, y Bwrdd Iechyd, y sector wirfoddol ac eraill yn cydweithio er mwyn darparu'r gwasanaeth gofal a lles y mae ein trigolion ei angen, yn y ffordd a'r lleoliadau mwyaf hwylus posib. Bydd y ffordd newydd yma o weithio yn llwyddo oherwydd ein bod ni fel darparwyr gwasanaeth yn stopio meddwl amdanom ein hunain fel sefydliadau unigol ac yn dod at ein gilydd i gydweithio er lles yr unigolyn neu deulu sydd angen cymorth. Mae fy niolch yn fawr felly i'n holl bartneriaid sydd ynghlwm â'r gwaith arloesol hwn.

Er mwyn parhau i gefnogi'r bobl mwyaf bregus yn ein cymdeithas, yn oedolion a phlant, rydym wedi sefydlu Bwrdd Cefnogi Pobl fydd yn cydlynu yr holl waith sydd ar y gweill ar draws adrannau'r Cyngor i helpu pobl gyda materion megis diffyg gwaith, cael a chynnal cartref, anawsterau magu teulu, unigrwydd neu gamddefnyddio sylweddau ac alcohol.

Mae'n amlwg bod cefnogi ein trigolion yn ddigonol yn talu ar ei ganfed. Dangosodd ganlyniadau addysgol haf 2018 bod 43.8% o'n dysgwyr oedd â hawl i brydau ysgol am ddim wedi ennill 5 gradd TGAU A*-C, a byddwn yn parhau i geisio cynyddu'r ffigwr hwn i'r dyfodol.

Rydym hefyd yn parhau i'w gwneud hi'n haws i'n trigolion gysylltu â ni unrhyw bryd drwy ymestyn y ddarpariaeth hunanwasanaeth ar-lein. Mae dros 9,000 o gyfrifon newydd wedi eu creu yn ystod 2018/19 sy'n ei gwneud hi'n bosib trefnu pob math o wasanaethau megis talu am ginio ysgol neu archebu tocyn parcio blynyddol.

Tra'n edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2018/19 rwy'n hyderus ein bod wedi parhau i gynnal y gwasanaethau hynny y mae trigolion Gwynedd eu hangen ac yn eu haeddu, ac mai adeiladu ar y gwaith caled hwnnw a wnawn wrth edrych tua'r dyfodol.

# Taith 2018/19 Cyngor Gwynedd

**2018/19**

Agor Tai Gofal Ychwanegol Hafod y Gest, Porthmadog sy'n cynnwys 40 o fflatiau ble gall pobl barhau i fyw'n annibynnol neu dderbyn gofal.

Ymestyn y gwaith gofal arbenigol ar gyfer dementia trwy ddatblygu darpariaeth arbenigol yng nghartrefi Plas Hafan, Nefyn a Phlas Hedd, Bangor mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd.

Cymeradwyo grantiau gwerth £1.5m i brynwyr tro cyntaf fydd yn cartrefu bron i 200 o unigolion a theuluoedd.

**Ffordd Gwynedd**

Pecynnau cymorth ariannol newydd wedi eu lansio ar gyfer busnesau yn ardaloedd Penygroes, Bethesda a Chanol Dinas Bangor.

Arolygiaeth Gofal Cymru wedi nodi fod 'gan wasanaethau plant Gwynedd gryfderau sylweddol ac roedd ganddynt weithlu ymrwymedig a chadarn'.

Cwblhau dau gynllun adfywio strategol yng Nghaernarfon, sef adeilad Rheilffordd Ffestiniog ac Eryri a chynllun Galeri2.

Drwy gydweithio gyda chynghorau cymuned a thref a grwpiau cymunedol, rydym wedi gallu cynnal nifer uchel o doiledau at ddefnydd y cyhoedd yma yng Ngwynedd.

Pobl Gwynedd yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad cyhoeddus i weld pa wasanaethau lleol oedd bwysicaf iddynt er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i benderfynu ble i edrych am arbedion.

Erbyn diwedd 2018/19 roedd 63.3% o wastraff cartrefi Gwynedd yn cael ei ailgylchu, ailddefnyddio neu ei gompostio, sy'n gynnydd o 8% ers 2014/15.

9,129 o gwsmeriaid newydd wedi creu cyfri hunanwasanaeth yn www.gwynedd.llyw.cymru/fynghyfrif er mwyn cael mynediad at nifer o wasanaethau'r Cyngor.

# Cyflwyniad

Cyhoeddodd y Cyngor 'Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023' ym mis Mawrth 2018 sy'n gosod ein huchelgais a'n blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod dan sylw. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn edrych yn benodol ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma gan y Cynllun.

Eleni mae'r adroddiad wedi ei strwythuro mewn 2 ran. Yn y rhan cyntaf rydym yn canolbwyntio ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni gan y prosiectau yr ydym wedi penderfynu canolbwyntio arnynt er mwyn gwneud y gwahaniaeth i gymunedau Gwynedd (ein Blaenoriaethau Gwella). Mae'r rhan yma wedi ei strwythuro ar sail y Blaenoriaethau Gwella.
Mae ail ran yr adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad gwaith dydd i ddydd a ddarperir i drigolion Gwynedd gan y gwahanol Adrannau o fewn y Cyngor. Adroddir hefyd ar y Blaenoriaethau Lleol a gafodd eu hadnabod gan yr aelodau etholedig.




*wedi addasu ffigwr 2018/19 er mwyn adlewyrchu effaith chwyddiant a throsglwyddiadau er mwyn dangos gwir effaith

Fel yr ydym wedi adrodd yn y gorffennol mae ein sefyllfa ariannol fel Cyngor wedi newid cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf a bydd yn parhau i osod cryn her i ni wrth gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Rydym wedi llwyddo i gyflawni ein prosiectau a darparu ein gwasanaethau er gwaethaf gorfod wynebu toriadau sylweddol o £27m mewn grant gan y Llywodraeth ers 2013/14.

Mae cynnydd Cynllun Cyngor Gwynedd yn cael ei fonitro yn gyson yn ystod y flwyddyn mewn cyfarfodydd herio perfformiad Adrannol. Yn y cyfarfodydd hyn mae'r Aelod Cabinet, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol, yn adolygu cynnydd prosiectau'r Blaenoriaethau Gwella a gwaith dydd i ddydd yr Adran. Yn ogystal, mae aelodau o'r Pwyllgorau Craffu perthnasol yn bresennol fel eu bod yn gallu adrodd yn ôl i weddill yr aelodau ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni.

Yn dilyn y cyfarfodydd herio perfformiad, caiff adroddiadau unigol eu paratoi gan yr Aelodau Cabinet sy'n crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran perfformiad y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Caiff yr adroddiadau hyn eu trafod mewn cyfarfodydd rheolaidd o'r Cabinet er mwyn adolygu ein gwaith yn gyson a sicrhau ein bod ar y trywydd cywir.

Yna, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol fel hwn yn cael ei baratoi sy'n adrodd ar gynnydd Cynllun Cyngor Gwynedd. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn ar gyfer i gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

| Amcanion Llesiant Cyngor Gwynedd | Nodau Llesiant Cenedlaethol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:** | **Llewyrchus** | **Cydnerth** | **Iachach** | **Cyfartal** | **Cymunedau Cydlynus** | **Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu** | **Yn gyfrifol ar lefel byd-eang** |
| 1. Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel | | | ■ | | ■ | | |
| 2. Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau | | ■ | ■ | | ■ | | ■ |
| 3. Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd | ■ | | | ■ | ■ | | |
| 4. Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud | ■ | ■ | | ■ | | ■ | |
| 5. Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| 6. Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg | | | | | ■ | ■ | |
| 7. Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir. | ■ | ■ | | | | | ■ |

Gyda dyfodiad **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)** (Y Ddeddf) mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio'n unigol a chyda'i gilydd i wella llesiant Cymru.

Yn unol â gofynion y Ddeddf, mabwysiadodd y Cyngor saith o Amcanion Llesiant ar gyfer 2018/19 sy'n cyfrannu tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'r amcanion yn seiliedig ar yr asesiad llesiant a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn ynghyd â sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r Cynllun.


Nodir hefyd yr angen i weithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy gan

- ystyried y tymor hir
- atal rhag digwydd
- gweithio'n integredig
- gweithio'n gydweithredol
- a chynnwys pobl o bob oed.

Mae disgwyliad arnom i adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf a cheir gwybodaeth ynghylch nifer o'r gweithgareddau hyn yng nghorff yr adroddiad. Yn ogystal, nodir pa Amcanion Llesiant y mae prosiectau unigol yn cyfrannu tuag atynt ynghyd â gwaith dydd i ddydd yr Adrannau ar ddiwedd pob pennod.

Rydym wedi cytuno mai'r ffordd orau i wreiddio'r cyfrifoldeb am weithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy yw fod Timau Rheoli Adrannau yn talu sylw i'r egwyddorion wrth gynllunio ymlaen. Mae rhywfaint o dystiolaeth fod hyn yn digwydd ond cydnabyddir bod angen asesu os yw'r ffordd yma yn llwyddo a'i peidio. Er mwyn cael darlun gwell o'r gwir sefyllfa byddwn yn cynnal asesiad o sut mae'r 5 ffordd o weithio wedi ei wreiddio o fewn Adrannau unigol dros y flwyddyn nesaf cyn dod i gasgliad ynglŷn â pha gamau sydd angen eu cymryd i wella'r sefyllfa.

# Ein Gwariant



# Blaenoriaethau Gwella

Mae 7 o Flaenoriaethau Gwella wedi eu hadnabod o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023, ac o fewn bob un mae prosiectau y byddwn yn canolbwyntio arnynt er mwyn cwrdd â'r uchelgais o weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu. Ar y tudalennau nesaf ceir adroddiad ar gynnydd y prosiectau hynny yn ystod 2018/19 yn ogystal â nodi'r amcanion llesiant y maent yn cyfrannu tuag atynt.

Ceir gwybodaeth bellach ynghylch yr hyn y byddwn yn ei wneud i'r dyfodol yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 trwy ymweld a www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunycyngor

## Blaenoriaeth Gwella 1

**Gwella'r amodau ar gyfer creu economi hyfyw a ffyniannus gan anelu at fwy o swyddi sy'n cynnig cyflogau da.**

## Cynllun Twf Gogledd Cymru — Blaenoriaeth Gwella 1

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Cydweithio gyda phartneriaid ar draws gogledd Cymru ar faterion fel y Cynllun Twf ar gyfer gogledd Cymru i greu'r amodau priodol er mwyn gallu denu buddsoddiad i'r ardal i gyflawni hynny.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Yn ystod 2018/19 mae Cyngor Gwynedd wedi cydweithio gyda phartneriaid ar draws gogledd Cymru gan sicrhau cyfraniad o £120miliwn yr un gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer y Cynllun Twf, sy'n cynnwys 7 rhaglen strategol ac 14 o brosiectau. Sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru fel Cydbwyllgor yn ystod mis Chwefror 2019.

Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi arwain ar ddatblygu achos busnes amlinellol ar gyfer cynllun safle Atomfa Trawsfynydd, ynghyd â chyfrannu at gynlluniau eraill gan gynnwys y prosiect Cysylltedd Digidol a'r rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth.

### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud..

## Cadw'r Budd yn Lleol

**Blaenoriaeth Gwella 1**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol.

Rydym yn awyddus i adeiladu ymhellach ar y gwaith hwn gan geisio cynyddu gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau am drefn gaffael y Cyngor gan eu cefnogi i gystadlu ac ennill cytundebau'r Cyngor a thu hwnt.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r canran o wariant lleol y Cyngor, wrth ddefnyddio ffigurau cyfalaf a refeniw, yn gyson â 2017/18 sef 62%. Mae'r canran o wariant gyda chwmnïau lleol, wrth ddefnyddio ffigurau refeniw yn unig, ar y llaw arall wedi codi 4% i 59%, sef cyfanswm o £62m.

Rydym fel Cyngor wedi canolbwyntio ar gynorthwyo cwmnïau lleol i fod yn ymwybodol o gyfleoedd sy'n bodoli i ymgeisio am gytundebau gyda'r Cyngor, i gynnig hyfforddiant iddynt ar sut i gyflwyno tendr ac i'w cynorthwyo i fedru ymgeisio am unrhyw achrediadau proffesiynol all fod eu hangen arnynt i ymgeisio am waith (ee. iechyd a diogelwch). Buom yn cefnogi'r farchnad yn y meysydd canlynol dros y flwyddyn:

- Gofal oedolion
- Trafnidiaeth
- Cynnal a chadw
- Hurio offer
- Dillad diogelwch
- Nwyddau glanhau

Rydym yn disgwyl i weld os fydd y gefnogaeth a roddwyd yn arwain at gynnydd yn nifer y cwmnïau lleol i Wynedd fydd yn sicrhau cytundebau gwaith gyda'r Cyngor i'r dyfodol.

### Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £26,500 neu fwy)

**Blaenoriaeth Gwella 1**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn edrych i dargedu'r sectorau sy'n talu'n dda trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol gan hyrwyddo'r sir a denu buddsoddiad ychwanegol a sicrhau fod y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd. Byddwn yn lobïo a hwyluso gan greu'r amodau i ddenu buddsoddiad mewn safleoedd strategol megis Atomfa

Trawsfynydd, Maes Awyr Llanbedr a Pharc Bryn Cegin / Parc Menai. Mae gwaith da eisoes wedi cychwyn i ddenu buddsoddiadau i safleoedd Trawsfynydd a Llanbedr, ond mae angen cynnal y momentwm yma.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Crëwyd 57 o swyddi gwerth uchel yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â diogelu 29 o swyddi gwerth uchel yn sgil y gwaith cefnogi dwys sy'n cael ei wneud i ddenu buddsoddwyr a busnesau i'r ardal.

Cadarnhawyd £7.5miliwn o gyfraniad arian Ewropaidd tuag at y gwaith o ddatblygu safle Llanbedr fydd yn cynnwys gwella cyfleusterau'r safle a chreu gofod ar gyfer busnesau awyrofod ynghyd â chreu mynedfa newydd.

Lansiwyd Bargen y Sector Niwclear Llywodraeth y DU yn swyddogol yn Nhrawsfynydd yn ystod mis Medi 2018, gan nodi fod y safle yn ddelfrydol ar gyfer datblygiad Adweithyddion Bach.

### Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Arloesi Gwynedd Wledig — Blaenoriaeth Gwella 1

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ein bwriad yw adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi ei wneud i drawsnewid yr economi wledig trwy gyflwyno arloesedd o fewn sectorau traddodiadol (megis amaeth a thwristiaeth) ynghyd â chefnogi buddsoddiad yn isadeiledd ddigidol ein cymunedau gwledig gan roi sylw arbennig i ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd. Byddwn hefyd yn dylanwadu a lobïo yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar ran anghenion Gwynedd wledig.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Rydym eisoes wedi denu £4miliwn o arian Rhaglen Datblygu Gwledig i Wynedd i ddatblygu dulliau arloesol o weithio ac ystod o ddatblygiadau cyffrous er mwyn targedu cymunedau gwledig. Yn ystod 2018/19 cafodd 18 o ddatblygiadau arloesol cyffrous eu treialu, gydag enghreifftiau megis:

- Lansiwyd Maes Chwarae Digidol yng Nglynllifon, sy'n cynnig cyfleoedd i arbrofi gyda Rhyngrwyd Pethe i ymateb i heriau ardaloedd gwledig.
- Ysgol Dronau oedd yn rhoi cyfle i 25 o bobl ifanc fynychu 6 penwythnos o weithgareddau i ddysgu hedfan drôn yng Nghanolfan Awyrofod Llanbedr.
- Cynllun Cysawd Eryri oedd yn brosiect y bu ysgolion lleol yn rhan ohono i ail-greu Cysawd yr Haul o fewn ffiniau Gwynedd.
- Cynllun trafnidiaeth gymunedol i ymwelwyr yn Harlech.

Mae rhai o'r cynlluniau sy'n cael eu treialu yn cael eu datblygu ymhellach, yn ystod 2018/19 fe wnaethom sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi 10 o drefi a phentrefi gwledig y sir i ddatblygu gwasanaeth WiFi i'r cyhoedd.

Cafodd rhaglen Arfor ei chymeradwyo gan sicrhau £523,000 i Wynedd er mwyn creu gwaith i gefnogi'r iaith Gymraeg.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud..

## Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion

**Blaenoriaeth Gwella 1**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Rydym eisoes wedi bod yn llwyddiannus yn denu nifer o ddigwyddiadau proffil uchel cenedlaethol a rhyngwladol i'r sir a arweiniodd at fuddsoddiad o £6.7m yn 2016/17. Rydym yn awyddus i barhau gyda hyn a sicrhau bod busnesau lleol yn elwa o'r digwyddiadau. Bydd hyn yn arwain at gyfleodd i hyrwyddo'r sir, cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r sir, a chynnydd yn nifer y cyfleoedd i gwmnïau lleol weithio neu gynnig gwasanaethau i'r digwyddiadau.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Cafodd pecyn cefnogaeth ei hyrwyddo ar gyfer tymor 2018/19. Cefnogwyd 23 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Zip World Rocs, Gŵyl Rhif 6, a chroesawu cymal olaf Ras beicio merched Tour of Britain i Ddolgellau sef tro cyntaf i'r digwyddiad ddod i Gymru. Llwyddwyd i uchafu budd economaidd y Sir o £5.7miliwn yn ystod y flwyddyn. Cafodd 2,776 o bobl ifanc y cyfle unai i gymryd rhan, gwirfoddoli neu fynychu digwyddiadau.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Safle Treftadaeth y Byd

**Blaenoriaeth Gwella 1**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn edrych i wireddu rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, gwedd a golwg cymunedau

ac yn ansawdd y profiad i dwristiaid, ynghyd â pharhau i weithio i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi yng Ngwynedd.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Rydym wedi parhau i weithio ar gael dynodiad Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer yr ardaloedd llechi, cyhoeddwyd mai enwebiad Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru fydd yn cael ei gyflwyno nesaf i Bwyllgor Treftadaeth y Byd gan Lywodraeth Prydain.

Rydym wedi llwyddo i ddenu bron i £1m o fuddsoddiad grant a benthyciadau i'r ardaloedd llechi er mwyn gwireddu gweithgareddau ymgysylltu ac adfywio. Mae Cydlynydd Llechi Cymru wedi ei benodi er mwyn arwain ar y gwaith.

Yn ystod y flwyddyn mae gwaith comisiynu wedi ei wneud, gan gynnwys comisiwn i greu Cynlluniau Cynefin yn yr ardaloedd lechi, a bydd y cynlluniau yma yn llywio blaenoriaethau'r cymunedau dros y 5-10 mlynedd nesaf.

### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

## Elwa ar Dwristiaeth — Blaenoriaeth Gwella 1

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ein bwriad yw edrych ar y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu'n ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae hi dal yn ddyddiau cynnar ar y prosiect yma, ac yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd gweithdy gyda'r sector efo'r bwriad i ganfod barn a chyfrannu tuag at osod sail i gynllun busnes y Cynllun Elwa o Dwristiaeth. Sefydlwyd y Bwrdd Prosiect sydd wedi cefnogi'r gwaith cychwynnol. Comisiynwyd arbenigwyr i wneud gwaith pellach i adnabod modelau posibl ar gyfer gweithredu, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Prosiect yn fuan yn 2019/20.

### Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

## Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu

**Blaenoriaeth Gwella 1**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn adolygu sut mae'r gwasanaethau yma yn cael eu darparu er mwyn ystyried a oes lle i wella ac yn gweithredu ar unrhyw wersi ddaw i'r amlwg i sicrhau fod busnesau yn cael eu cynorthwyo i ffynnu.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Prosiect newydd yw hwn, ac felly mae hi dal i fod yn dyddiau cynnar. Yn ystod 2018/19 mae gwaith sgopio a thrafodaethau trawsadrannol wedi eu cynnal mewn perthynas â mabwysiadu rhaglen "Gwell Busnes i Bawb". Cafodd briff a chynllun prosiect ei gwblhau er mwyn llywio'r gwaith i'r dyfodol.

### Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

## Blaenoriaeth Gwella 2

**Sicrhau fod pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial drwy sicrhau fod gennym gyfundrefn addysg gynaliadwy, sy'n darparu cyfleoedd datblygu perthnasol i bawb waeth beth yw eu cefndir neu ymhle y maent yn byw.**

## Trawsnewid y Gyfundrefn Ysgolion

**Blaenoriaeth Gwella 2**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Rydym wedi ymgynghori ar gyfres o egwyddorion ddylai fod yn sail i unrhyw newid i'r dyfodol a byddwn yn sefydlu cynllun i wreiddio'r egwyddorion hynny er mwyn sicrhau cyfundrefn addysg hyfyw fydd yn sicrhau fod pob plentyn yn y sir yn cael cyfle teg i ddatblygu ei botensial.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Yn dilyn pryderon cyffredinol nad yw'r gyfundrefn ysgolion presennol yn gynaliadwy, bu i Gabinet y Cyngor fabwysiadu'r egwyddorion addysg addas i bwrpas:

- Cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw;
- Dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd;
- Oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd.

Mae'r egwyddorion yn gyson â modelau cynaliadwy ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, ynghyd â'r modelau arweinyddiaeth ar gyfer ein hysgolion. Mae'r egwyddorion yn cael ystyriaeth wrth wireddu prosiectau Band A a Band B Ysgolion G21 a rhain bellach fydd yr egwyddorion sylfaenol y byddwn yn eu hystyried wrth ymateb i unrhyw gyfleoedd i'r dyfodol.

### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Cryfhau Arweinyddiaeth — Blaenoriaeth Gwella 2

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn parhau i annog a hyrwyddo datblygiad proffesiynol arweinwyr presennol ein hysgolion, gan ymrwymo i raglenni datblygu arweinyddiaeth sydd ar gael. Byddwn hefyd yn adnabod a thargedu arweinwyr y dyfodol gan sicrhau eu bod yn cael mynediad i'r rhaglenni hyn.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r Awdurdod wedi cynllunio, mewn cydweithrediad â GwE, i gynnig trefniadau hyfforddi perthnasol ar gyfer datblygu arweinwyr y dyfodol, ac i hyrwyddo datblygiad proffesiynol arweinwyr presennol ein hysgolion.

### Amcanion Llesiant –

- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

## Dalgylch Bangor

## Blaenoriaeth Gwella 2

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth addysg ym Mangor gan edrych i roi cynllun newydd ar waith a fydd yn gwella'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Yn dilyn adolygu'r ddarpariaeth addysg ym Mangor mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynllun gwerth £12.7miliwn er mwyn adeiladu ysgol newydd yn y dalgylch a chynyddu capasiti Ysgol y Faenol. Cychwynnodd y gwaith o adeiladu'r ysgol newydd, gan dorri'r dywarchen gyntaf mewn seremoni efo plant y dair ysgol sy'n uno ar 7fed o Fawrth 2019.

### Amcanion Llesiant –

- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

## Dalgylch y Berwyn

## Blaenoriaeth Gwella 2

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o sefydlu Campws Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-19 oed ar safle Ysgol y Berwyn, Y Bala, a fydd hefyd yn cynnig gwasanaethau i'r gymuned leol, erbyn mis Medi 2019. Golyga hyn gwblhau'r broses o sefydlu'r corff llywodraethol, cwblhau'r gwaith adeiladu a chynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer agor y Campws Dysgu newydd.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Gyda'r gwaith adeiladu wedi dirwyn i ben, mae'r Ysgol bellach wedi ei henwi fel Ysgol Godre'r Berwyn. Mae'r Pennaeth wedi cychwyn yn ei swydd yn ystod mis Ionawr, ac mae gwaith yn parhau i benodi i'r strwythur. Mae gwaith ar yr elfennau cymunedol yn symud ymlaen yn dda gyda chriw lleol yn prysur drefnu defnydd y gofod cymdeithasol i'r dyfodol.

### Amcanion Llesiant –

- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

## Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

**Blaenoriaeth Gwella 2**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn datblygu'r gynhaliaeth yn y dosbarth, darpariaeth cyn-ysgol, darpariaeth ôl-16 ac Ysgolion Arbennig. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y gwaith partneriaethol presennol rhwng ein Hysgolion Arbennig a chydag ysgolion prif lif yr awdurdod er mwyn gwella profiadau dysgu plant ag anghenion dwys a chymhleth.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Cwblhawyd y gwaith o ailstrwythuro'r gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad sydd yn cynnig cyfeiriad strategol mwy effeithiol, a gwell cyswllt rhwng y ddau faes.

Lansiwyd gwefan newydd ar gyfer y Gwasanaeth ADYaCh ar y 5ed o Dachwedd 2018 www.adyach.cymru

### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

## Blaenoriaeth Gwella 3

**Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir.**

## Pobl Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith

**Blaenoriaeth Gwella 3**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn edrych i ganolbwyntio ar gyfres o weithgareddau er mwyn cael mwy o drigolion Gwynedd i waith llawn amser gan leihau segurdod a diweithdra.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Yn ystod 2018/19 mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn £300,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru, a lansiwyd y pecyn o brosiectau cyflogaeth fel "Gwaith Gwynedd". Mae'r pecyn yn cynnwys 5 o brosiectau sydd yn cydweithio er mwyn cefnogi trigolion Gwynedd i waith. Hyd yma mae cynlluniau ADTRAC, OPUS, Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith

a Mwy wedi cefnogi bron i 350 o unigolion, gan gefnogi bron i 60 i waith ac 80 i ennill cymhwyster. Mae TRAC wedi cefnogi dros 600 o blant i leihau'r risg o beidio bod mewn addysg, hyfforddiant na gwaith (NEET).

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Strategaeth Cefnogi Teuluoedd — Blaenoriaeth Gwella 3

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn ailedrych ar ein trefniadau presennol yn y maes yma er mwyn gwneud mwy o'r hyn sy'n gweithio i gyflawni anghenion plant a'u teuluoedd. Bydd cynnig cefnogaeth i rai teuluoedd cyn i faterion ddwysáu yn hanfodol er mwyn helpu plant a theuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.

Byddwn yn sicrhau gweledigaeth glir gyda phartneriaid allweddol megis y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'n cymunedau a'r Trydydd Sector er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd hynny sydd angen ein cymorth.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Rydym wedi bod yn diweddaru asesiadau anghenion trigolion a'u dadansoddi i lefelau lleol ar gyfer asesiad poblogaeth Gwynedd. Mae gwaith pellach wedi ei gynnal i adnabod beth yw'r galw am gefnogaeth i deuluoedd ar draws adrannau'r Cyngor yn ogystal â mapio pa ddarpariaethau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd ar draws Gwynedd yn barod, a sut mae pobl yn cael mynediad i'r gwasanaethau yma. Mae'r gwaith yma wedi arwain at wella ein dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol, ac i'r dyfodol bydd yn ein harwain i gynllunio sut y byddwn yn ymateb i'r anghenion ar y cyd â'n partneriaid.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Cefnogi Teuluoedd a chyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru i uno eu grantiau ataliol wedi rhoi cyfle i ni adlewyrchu ar ein cyfeiriad. Fel Cyngor rydym yn awyddus i edrych yn ehangach ar y maes ataliol a'r gefnogaeth yr ydym yn ei ddarparu ar draws ein holl wasanaethau i drigolion y Sir er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

Mae angen mwy o gefnogaeth ar rai trigolion ac mae'r Cyngor yn buddsoddi, darparu a chynllunio nifer o wasanaethau ac ymyraethau sy'n mynd i'r afael â chefnogi pobl gyda materion amrywiol megis anawsterau rhiantu a magu teulu, cael a chynnal cartref, cynnal perthnasau iach, delio gyda cham-ddefnyddio sylweddau, alcohol, trais, troseddu ac effeithiau hynny, byw'n iach ac actif, incwm annigonol a diffyg gwaith, methu aros mewn addysg, diffyg cymwysterau a sgiliau sylfaenol, gofalu, heneiddio, unigrwydd a diffyg cysylltiadau cymdeithasol. Mae'n fwriad gennym i sefydlu 'Bwrdd Cefnogi Pobl' er mwyn dod a'r holl elfennau uchod at ei gilydd gyda'r bwriad o gefnogi pobl yn well.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

## Cydymdrechu yn erbyn Tlodi — Blaenoriaeth Gwella 3

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn parhau gyda gwaith i helpu trigolion i fagu sgiliau i ymdopi gyda rheoli incwm y cartref a dyledion, i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein a gweithredu cynlluniau fydd yn rhoi cyfleoedd gwaith i bobl sydd ddim yn rhan o'r farchnad lafur. Byddwn hefyd yn rhoi cefnogaeth i bobl i ymdopi efo newidiadau yn y maes lles a budd-daliadau.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Er mwyn cefnogi trigolion Gwynedd gyda'r newidiadau i'w budd-daliadau, sefydlwyd Grŵp Diwygio Lles Gwynedd ar y cyd â phartneriaid. Yn ystod y flwyddyn mae'r Grŵp wedi datblygu ac arwain ar Gynllun Gweithredu, ac wedi lansio ymgyrch farchnata "Mae eich budd-daliadau yn newid" ar y cyd ledled Gwynedd. Rydym wedi parhau i gydlynu a chynnal digwyddiadau Call efo'r Geiniog ar draws Gwynedd ar y cyd gyda'r Canolfannau Byd Gwaith gan gynnig mynediad at wybodaeth a chymorth i drigolion Gwynedd.

Mae'r prosiect Gwynedd Ddigidol wedi parhau i gynnig sesiynau Galw Draw Digidol ar draws y Sir, ac hyd yma mae 3,000 o drigolion wedi eu cefnogi i fagu sgiliau digidol.

I'r dyfodol bydd y gwaith hwn yn cael ei ymgorffori o fewn rhaglen waith y Bwrdd Cefnogi Pobl y cyfeirir tuag ato uchod.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Rhiant Corfforaethol — Blaenoriaeth Gwella 3

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Fel rhieni corfforaethol byddwn yn anelu i wella'r cyfleoedd ar gyfer ein plant ym mhob agwedd ar eu bywydau. Drwy wrando a chanfod barn y plant sy'n ein gofal byddwn yn sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir gennym yn cwrdd â'u hanghenion gan weithredu i gau unrhyw fylchau. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y rhai sydd yn gadael ein gofal yn cael eu paratoi a'u harfogi ar gyfer bywyd fel oedolyn gan sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth addas i'w cynorthwyo i wireddu eu potensial.

## Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae cryn waith wedi ei gynnal yn ystod y cyfnod i geisio adnabod lle mae angen i ni wella ac i adnabod ymarfer da drwy'r grwpiau tasg sydd eisoes wedi eu sefydlu. Rydym o'r farn bod y flaenoriaeth gwella yma wedi ei gwblhau erbyn hyn. Mae'r Panel wedi adnabod meysydd sydd angen derbyn sylw ac mae rhaglen waith yn ei lle i gyfarch hyn, ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad yr Arolygaeth Gofal Cymru gan ddisgrifio'r Panel Rhiant Corfforaethol yn 'uchelgeisiol ar gyfer y plant mewn Gofal'.

## Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Lleihau'r Bwlch Cyflog Rhwng Merched a Dynion / Merched Mewn Arweinyddiaeth

**Blaenoriaeth Gwella 3**

## Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Er yn gadarn ei fod yn talu cyflog ar sail cyfartal, mae'r Cyngor yn cydnabod bod bwlch cyflog yn bodoli rhwng dynion a merched.

Byddwn yn ymchwilio i sut mae modd lleihau'r bwlch cyflog hwn gyda golwg ar hybu'r nifer o ferched sy'n cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor.

## Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Ar ddiwedd Mawrth 2018 roedd 71% o holl weithlu'r Cyngor yn ferched, ac o'r canran hwnnw roedd 63% yn gweithio'n rhan-amser, a nifer mewn swyddi sy'n talu lefelau is o gyflog megis swyddi gofal neu lanhau. O ganlyniad, mae'r cyflogau y mae merched yn ei dderbyn, fel carfan gyfan, yn 9.9% yn is na'r garfan gyfan o ddynion sy'n gweithio i'r Cyngor.

Petai'r sefyllfa bresennol yn parhau, ni fyddai penodi merched i bob swydd uwch-reolaethol o fewn y Cyngor yn sicrhau lleihad arwyddocaol yn y bwlch cyflog. Daeth yn amlwg felly bod angen newid trywydd y prosiect, ac rydym bellach yn canolbwyntio ar ddileu unrhyw elfen o'r amodau ac amgylchedd gwaith yn y Cyngor sy'n rhwystr i alluogi merched i ymgeisio am swyddi arweiniol a rheolaethol i'r dyfodol. Gyda 50% yn llai o ferched na dynion yn credu y gallant ymgeisio am swyddi arweiniol neu reolaethol, mae ffocws y prosiect hwn bellach ar 'Ferched mewn Arweinyddiaeth'.

## Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

## Blaenoriaeth Gwella 4

**Sicrhau mwy o gyflenwad o dai addas ar gyfer ein trigolion.**

### Tai Addas a Fforddiadwy

**Blaenoriaeth Gwella 4**

#### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Pwrpas y prosiect **Tai Addas a Fforddiadwy** yw sicrhau fod gennym ddealltwriaeth fanwl o natur y galw am dai o fewn ein cymunedau, fel y gallwn gynllunio ar gyfer y dyfodol a gwneud gwahaniaeth.

#### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r Gwasanaeth Tai wedi bod yn gweithio ar asesu anghenion Tai yng Ngwynedd ac wedi ymgynghori ar y canfyddiadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwaith o gwblhau'r Asesiad Anghenion Tai yn sylfaen gref i'r Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-2024 sydd wedi cael ei chwblhau yn ystod y flwyddyn ac sydd ar fin cael ei chyflwyno i'r Cabinet. Mae'r Strategaeth yn gosod uchelgais clir ar gyfer y maes Tai yn ei gyfanrwydd gyda chartrefi fforddiadwy ac addas yn gyrru ein cynlluniau i'r dyfodol.

#### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

### Adnabod a Hyrwyddo Cynlluniau a Mentrau Tai

**Blaenoriaeth Gwella 4**

#### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ein bwriad yw gwella mynediad trigolion at gymorth sydd yn ymwneud ag anghenion tai gan adnabod mentrau a chynlluniau sydd ar gael i'w cynorthwyo. Byddwn hefyd yn dod i benderfyniad ar y ffordd orau i hyrwyddo'r cynlluniau a'r mentrau yma ac ynghylch yr angen i ddatblygu cefnogaeth benodol bellach.

#### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r gwaith o asesu anghenion tai pobl Gwynedd ynghyd â llunio Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd wedi gwella ein dealltwriaeth o'r heriau sydd yn wynebu pobl o fewn y maes

tai. Mae mynd i'r afael â'r heriau sydd yn wynebu pobl wrth iddynt geisio canfod cartref addas yn ganolog i Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Blaenoriaeth Gwella 5

**Sicrhau ein bod yn annog a hyrwyddo gallu pobl Gwynedd i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.**

## Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

**Blaenoriaeth Gwella 5**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosib i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo cyrff cyhoeddus.

Byddwn yn edrych i wella'r sefyllfa trwy gydweithio efo sefydliadau cyhoeddus yng Ngwynedd er mwyn galluogi ac annog trigolion y sir i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu efo'r sefydliadau hynny a sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r prif gyrff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau yng Ngwynedd yn aelodau o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Rydym felly wedi cydweithio â'n cyd-aelodau o'r Bwrdd i weld sut allwn ni rannu arfer da a helpu ein gilydd i weithredu Safonau Iaith Comisiynydd y Gymraeg er budd ein trigolion. Er bod nifer o enghreifftiau o gynnal gwasanaethau Cymraeg safonol, yn anffodus nid ydym yn credu bod y gwaith ar y mater pwysig hwn wedi symud yn ei flaen yn ddigon cyflym dros y flwyddyn.

Amcanion Llesiant –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Busnesau Gwynedd yn Defnyddio'r Gymraeg

**Blaenoriaeth Gwella 5**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae gan fusnesau Gwynedd rôl i'w chwarae wrth hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg, a'n bwriad fydd annog busnesau i ddefnyddio'r iaith wrth gynnig gwasanaeth. Bydd angen i ni ystyried sut y mae modd i'r Cyngor hyrwyddo hyn, a pha weithgareddau sy'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol yn y maes.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r Cyngor yn dod i gysylltiad â busnesau'r sir drwy sawl llwybr - ein gwaith yn cefnogi busnesau lleol er mwyn gwella'r economi leol, ein prosesau cynllunio a'n prosesau caffael (prynu nwyddau neu wasanaethau). Bu hi'n flwyddyn felly o weld sut fedrwn ni ddylanwadu a helpu busnesau i gynnig gwasanaeth Cymraeg neu ddwyieithog i'w cwsmeriaid. Bellach mae amodau wedi eu gosod mewn cytundebau ar gyfer y gronfa benthyciadau busnes, ac rydym wedi cydweithio â'r prosiect Cymraeg Byd Busnes sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynyddu defnydd busnesau o'r Gymraeg. Yn yr un modd rydym hefyd wedi dechrau cydweithio â siroedd eraill gorllewin Cymru drwy'r prosiect Arfor i gefnogi busnesau er mwyn datblygu'r gwasanaeth Cymraeg.

### Amcanion Llesiant –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

**Blaenoriaeth Gwella 5**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg a sicrhau bod gwaith mewnol y Cyngor yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, rydym yn cydnabod ein bod mewn cyfnod heriol a bod angen gweithio yn barhaus i wthio'r ffiniau a gwneud yn siŵr bod y ddarpariaeth yn gyson ar draws ein gwasanaethau.

Fe fyddwn yn parhau i gydweithio gydag adrannau i edrych ar y modd y maent yn ateb gofyn y cyhoedd am wasanaeth Cymraeg, i ystyried eu llwyddiant i normaleiddio'r Gymraeg a'r ffyrdd y gallent fod yn hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg eu defnyddwyr.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Dechreuwyd drwy ganolbwyntio ar weithio efo gwasanaethau rheng flaen, gan gwblhau gwaith mewn 9 Gwasanaeth, a'r gwaith yn parhau mewn 7 arall. Aseswyd sgiliau Cymraeg staff yn y swyddi rheng flaen i weld oedd bylchau mewn sgiliau ac a oedd angen cefnogaeth bellach gan gynnig y gefnogaeth neu hyfforddiant ble roedd angen. Mae hyn i gyd wedi cynnal neu wella'r gwasanaeth Cymraeg i drigolion.

Mae cynnal hyfforddiant iaith a mentora un i un wedi arwain at unigolion yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chyda'r cyhoedd ble nad oeddynt ynghynt. Mae defnyddio technoleg- ee. grwpiau Facebook, Whatsapp ayyb yn helaeth er mwyn rhannu syniadau ac ymarfer y Gymraeg wedi helpu staff. Mae preswylwyr mewn cartref gofal hefyd yn helpu staff y cartref i ymarfer eu Cymraeg.

Roedd 86% o staff a holwyd yn teimlo bod yr hyfforddiant a ddarparwyd wedi cael 'llawer' o effaith arnynt yn y gweithle, gyda 79% o staff a holwyd yn credu i'r derbynnydd gwasanaeth elwa o'r ffaith i'r staff dderbyn hyfforddiant.

### Amcanion Llesiant –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Strategaeth/Siarter Iaith Uwchradd

**Blaenoriaeth Gwella 5**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn parhau i gyflogi Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd fydd yn darparu her a chefnogaeth briodol i'n hysgolion uwchradd. Bydd gan bob ysgol uwchradd gynllun gweithredu unigol ac unigryw fydd yn adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'r gymuned o'i hamgylch. Bydd y bobl ifanc eu hunain hefyd yn datblygu rhaglen o weithgareddau anffurfiol a chyffrous ar gyfer eu cyfoedion, er mwyn codi statws a chynyddu'r cyfleodd anffurfiol i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Cafodd yr holl ysgolion uwchradd gefnogaeth i weithredu prif flaenoriaethau'r Strategaeth Iaith ac ail-ymweld â'u cynlluniau gweithredu unigol. Cafodd pob ysgol uwchradd hefyd gefnogaeth i weithredu'r gwe iaith gyda disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 yn ystod tymor yr Hydref.

### Amcanion Llesiant –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

## Blaenoriaeth Gwella 6

**Sicrhau fod gennym wasanaethau gofal sy'n helpu pobl i fyw eu bywydau fel y dymunant.**

**Gwydnwch Cymunedol** | **Blaenoriaeth Gwella 6**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn datblygu gwasanaethau ataliol sydd wedi eu hanelu at gefnogi trigolion, gan gysylltu pobl â chefnogaeth o fewn eu cymunedau gan ganolbwyntio ar 5 ardal yn ystod y flwyddyn gyntaf a'u gwneud yn Ddementia Gyfeillgar. Rhan allweddol o wydnwch cymunedol yw sut mae gwahanol genedlaethau yn cyd-fyw a chymdeithasu, a byddwn yn adeiladu ar y gwaith y tu ôl i'r rhaglen 'Hen Blant Bach' a fu'n gyfle i edrych ar sut y byddai dod â phlant oed meithrin a phobl hŷn at ei gilydd.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Un o ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Iechyd a Llesiant yw sicrhau ein bod yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl mewn ffordd syml a hygyrch. Yn ein barn ni, y ffordd orau o wireddu hyn yw creu a bod yn rhan o 5 Tîm Lleol (TAC) fydd yn cynnig trefniadau cysylltu syml i drigolion Gwynedd. Bydd hefyd yn sicrhau bod unigolion yn parhau i gadw rheolaeth wrth ganfod gwybodaeth am yr hyn y maent eu hangen.

Mae'r Cynllun Cysylltwyr Cymunedol wedi ei sefydlu ac wedi lleoli unigolion a noddir gan asiantaeth 3ydd sector oddi mewn i 3 o'r TAC. Maent yn mapio gwasanaethau a grwpiau sydd yn bodoli o fewn cymunedau gan gysylltu unigolion sydd angen cymorth gyda'r gwasanaethau hynny, ynghyd ag adnabod bylchau yn y gwasanaeth a hybu mentrau cymunedol.

Yn dilyn dwy gyfres lwyddiannus (6 wythnos yr un) o Bontio'r Cenedlaethau ym Mangor a Nefyn, mae'r Uned Llesiant wedi mynd ati i drefnu gweithgareddau rhwng tenantiaid Tai Gwarchod yn y Bermo a phlant Ysgol y Traeth. Mae'r Uned Llesiant yn ogystal yn gweithio gyda Phennaeth Safle Grŵp Llandrillo Menai yn Nolgellau ar wneud cyswllt rhwng eu myfyrwyr â phobl hŷn, a rhagwelir y gall hyn gefnogi recriwtio mwy o bobl ifanc i'r maes gofal cymdeithasol.

Mae'r "Cynllun Dementia Go" yn mynd o nerth i nerth ac maent bellach yn cynnal 14 dosbarth ar draws y Sir. Mae'r cynllun wedi ei ehangu a'i ddatblygu yn ogystal i gynnig profiadau i breswylwyr o fewn ein cartrefi gofal. Rydym wedi cynnal sesiynau hyfforddi gweithlu mewn 11 cartref preswyl yn y Sir. Bydd y cynllun yn sicrhau fod preswylwyr yn cael y cyfle i fod mor actif â phosibl gan leihau'r risg o godymu, lleihau iselder a gwella ansawdd bywyd.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

**Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal** **Blaenoriaeth Gwella 6**

## Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn parhau gyda'r gwaith hwn gan sefydlu 5 tîm lleol ar y cyd gyda'n partneriaid fydd yn sicrhau gwasanaethau effeithiol gyda'r ffocws ar yr unigolion, a sicrhau bod ein trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol ac yn cyd-fynd â beth sy'n bwysig i'r unigolyn hwnnw.

Fel rhan o'n gwaith gyda'n darparwyr gwasanaethau gofal byddwn yn arbrofi efo ffyrdd newydd o gomisiynu pecynnau gofal cartref a hefyd yn buddsoddi yn ein cartrefi gofal er mwyn gwella ein darpariaeth gofal mwy dwys. Yn ogystal, fe fyddwn yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn cryfhau gwasanaethau iechyd meddwl yn lleol ac yn edrych ar ffyrdd arloesol o wella gwasanaeth anabledd dysgu.

## Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae 5 Tîm Lleol (TAC) wedi eu lleoli yn ardaloedd Llŷn, Caernarfon, Bangor, Eifionydd/Gogledd Meirionydd a De Meirionydd. Timau amlddisgyblaethol integredig o wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yw'r rhain. Mae'r newid hwn yn golygu fod y bobl sydd angen gwasanaeth, ynghyd â'u teuluoedd yn gallu cysylltu gyda'r swyddogion perthnasol yn uniongyrchol. Mae ardaloedd llai hefyd yn golygu ei bod hi'n haws i'r staff gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd o fewn cymunedau lleol, fydd yn ei dro yn gwella profiad unigolion.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar wella llif cleifion drwy'r system gofal ac iechyd, a hynny drwy ddilyn achosion o'r dechrau i'r diwedd a cheisio dileu'r rhwystrau sydd yn codi. Mae'r gwaith yma hefyd yn cadw at yr egwyddor o wneud beth sydd yn bwysig i'r unigolyn ac wedi ei seilio ar yr un egwyddorion â'r gwaith timau integredig. Mae arbrawf ar Ward Ogwen Ysbyty Gwynedd wedi ceisio canfod dulliau i wella'r system trosglwyddo cleifion, er yn ddyddiau cynnar, mae gwaith dechreuol yn dangos arwyddion diddorol a chadarnhaol iawn.

Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu datblygu darpariaeth arbenigol dementia o fewn cartrefi mewnol y Cyngor mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau i ddatblygu'r unedau arbenigol yn Llys Cadfan yn Nhywyn, Plas Hafan yn Nefyn a Phlas Hedd ym Mangor diolch i gyllid drwy Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru. Mae disgwyl y bydd yr uned yng Nghartref Bryn Blodau y Cyngor yn Llan Ffestiniog yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2019.

Bu i denantiaid cyntaf Tai Gofal Ychwanegol Hafod y Gest ym Mhorthmadog symud i mewn yn ystod mis Ionawr. Mae Hafod y Gest yn bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Grŵp Cynefin a datblygwyd y cynllun gan 'Anwyl Construction'. Mae wedi'i leoli yng nghanol tref

a chymuned Porthmadog ac wedi ei leoli'n agos at siopau a chyfleusterau'r dref. Mae ymateb preswylwyr i'r datblygiad wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae'r Cyngor wedi manteisio ar gyllid o Gronfa Gofal Canolradd Llywodraeth Cymru i greu model newydd i ddarparu gwasanaeth er budd oedolion gydag anableddau dysgu wedi'i leoli yng Nghaernarfon. Mae'r arian wedi ei ddefnyddio i adnewyddu ardal caffi ynghyd ag uwchraddio'r ystafell gymuned. Mae'r caffi yn darparu cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddiant i oedolion sy'n hysbys i'r Tîm Anabledd Dysgu yn yr ardal er mwyn iddynt ddatblygu sgiliau bywyd ymarferol pwysig ynghyd â darparu gwasanaeth newydd i'r gymuned ehangach.

## Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.

## Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal

**Blaenoriaeth Gwella 6**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Cyn medru sefydlu cynllun gweithredu i ddatrys y broblem mae angen i ni sicrhau ein bod yn wir ddeall y broblem a byddwn yn cynnal ymchwiliad i'r sefyllfa bresennol yng Ngwynedd, y pwysau ar ein gweithlu ac i'r Cyngor, ac yn edrych i weithredu ar yr atebion ddaw i'r amlwg. Byddwn hefyd yn gweithio i godi proffil a statws gweithwyr gofal trwy adolygu llwybrau gyrfaol presennol, fel bod gyrfa mewn gwaith gofal cymdeithasol yn ddewis gyrfa cadarnhaol, a byddwn yn hyrwyddo'r maes gofal fel gyrfa drwy ledaenu gwybodaeth briodol i sefydliadau lleol. Byddwn hefyd yn adolygu ein cynllun Prentisiaethau o fewn y Cyngor i geisio dylanwadau ar y nifer o brentisiaethau o fewn y maes gofal.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae llawer wedi digwydd o fewn y prosiect gydag amryw o gynlluniau yn ceisio mynd i'r afael â gwahanol agweddau i geisio deall y broblem yn well. Mae'r Prosiect Gofal Cartref ym Methesda yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem o fewn y maes gofal cartref ac wedi arwain ar newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn darparu gofal cartref yng Ngwynedd. Mae prosiectau tebyg ar waith yn ardal Tywyn hefyd.

Mae darn o waith hefyd wedi ei gomisiynu i wella ein dealltwriaeth ac adnabod prif negeseuon o ran y maes pobl hŷn. Fe gynhaliwyd i sesiwn ym mis Medi i wella dealltwriaeth aelodau'r Cyngor o'r her recriwtio sy'n bodoli yn ogystal â cheisio casglu eu barn a'u sylwadau ar gyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Timau Ardal yn ogystal yn cynnal ymarferiad ar y cyd gyda'n partneriaid i gasglu gwybodaeth am achosion mewn un ardal benodol. Bydd y tîm yn craffu achosion yn fanwl er mwyn dod i ddeall yn well beth yw'r angen o fewn un ardal fechan, ac yna gallwn ddod i gasgliad am ddatrysiadau posib.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

## Blaenoriaeth Gwella 7

**Sicrhau fod y Cyngor cyfan yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.**

## Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith

**Blaenoriaeth Gwella 7**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ni fydd sicrhau diwylliant cyson yn digwydd ar ei ben ei hun, a phwrpas y prosiect hwn fydd arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Byddwn yn parhau i gynnal adolygiadau dwys gyda nifer o wasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i'w gwaith. Yn ogystal, bydd y rhaglen i hyfforddi Rheolwyr Gwasanaeth ar egwyddorion Ffordd Gwynedd (gan gynnwys egwyddorion rheoli perfformiad cadarn) yn parhau a bydd cefnogaeth ar gael iddynt gynnal eu hadolygiadau eu hunain.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Fel y nodwyd wrth ddisgrifio'r prosiect 'Datblygu Arweinyddiaeth', mae swyddogion y fewn y Cyngor sy'n rheolwyr wedi cwblhau cwrs hyfforddiant ar sut i roi Ffordd Gwynedd ar waith. Maent wedyn wedi symud ymlaen i gynnal adolygiadau eu hunain ar sut mae eu gwasanaethau yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog.

Yn y cyfamser, mae'r gwaith o gynnal adolygiadau gwasanaeth dwys gyda chefnogaeth swyddogion arbenigol yn parhau ac mae dulliau o weithio wedi newid dros y flwyddyn yn sgil y gefnogaeth hon. Mae timau o weithwyr priffyrdd, er enghraifft, yn defnyddio teclynnau electronig symudol i gofnodi a threfnu gwaith trwsio ffyrdd sydd wedi lleihau'r amser y mae'r holl broses yn ei chymryd.

## Gwireddu Arbedion

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae'r toriadau yn yr arian y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn golygu fod angen i ni ddygymod efo derbyn llai o arian i gynnal ein gwasanaethau. Dros yr 8 mlynedd ddiwethaf rydym wedi gorfod tynnu dros £48m allan o gyllideb y Cyngor.

Byddwn felly yn parhau efo'r gwaith o sicrhau ein bod yn gwireddu'r arbedion hynny sydd wedi eu cymeradwyo eisoes a sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer darganfod arbedion y dyfodol. Yn ystod 2018/19 byddwn yn datblygu dewisiadau arbedion ar gyfer 2019/20 ymlaen er mwyn ymateb i'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Yn naturiol, byddwn yn ymgynghori gyda thrigolion Gwynedd ar y dewisiadau hynny.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Fe wnaethom gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus i weld beth oedd blaenoriaethau Pobl Gwynedd, yn ogystal ag ymgynghoriad cyhoeddus ar gynlluniau arbedion arfaethedig er mwyn cynorthwyo'r Cynghorwyr wrth wneud penderfyniad. Mabwysiadodd y Cyngor gyllideb ar 7 Mawrth 2019 oedd yn gorfod ymgorffori £5.2miliwn o arbedion. Roedd hyn ar ben y £48miliwn yr oeddem eisoes wedi gorfod ei dynnu allan o gyllidebau'r Cyngor.

O ran gwireddu'r arbedion hynny mae 96% o gynlluniau arbedion 2015/16 – 2017/18 wedi eu gwireddu, gydag elfen o bryder am gynlluniau codi incwm o fewn yr Adran Addysg lle nad yw'r incwm a ragwelwyd yn amlygu ei hun. Bydd yr Adran yn edrych am ddulliau i wneud yn iawn am y bwlch. O ran arbedion 2018/19 mae 73% o'r arbedion wedi eu gwireddu, gyda 7 cynllun allan o'r cyfanswm o 28 yn llithro. Fodd bynnag disgwylir i'r rhan fwyaf o'r rhain gael eu cyflawni maes o law, gyda phryder am un cynllun yn unig o fewn maes Plant lle gwelwyd cynllun oedd i fod i ddarganfod arbedion drwy adolygu sut yr oeddem yn cyflawni anghenion plant mewn gofal yn cael ei gyflawni ond ddim yn cynhyrchu cymaint o arbedion a ddisgwyliwyd. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn i ddod i weld beth arall sydd yn bosibl i'w wneud.

# Adran Addysg

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael yr un cyfleoedd ac yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau posib.

Mae gostyngiad cenedlaethol eleni yng nghanlyniadau Cyfnod Sylfaen (7 oed) o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, a'r prif reswm am hyn yw'r defnydd am y tro cyntaf o ddeilliannau newydd mewn iaith a mathemateg wrth asesu. Mae'r gostyngiad cenedlaethol yma yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau Gwynedd. O ganlyniad dylai cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol gael eu hosgoi gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymharol. Roedd 81.7% o'r dysgwyr a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS), sy'n gyson â 82.6% yn genedlaethol.




Mae cyrhaeddiad addysgol ein plant a phobl ifanc yng nghanlyniadau Haf 2018, yng Nghyfnod Allweddol 2 (11 oed) a Chyfnod Allweddol 3 (14 oed), yn parhau'n gadarn dda. Roedd perfformiad Cyfnod Allweddol 2 yn y lefelau uwch yn gadarnhaol iawn, gyda 91.2% o'r dysgwyr yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd (DPC), sef Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, sydd yn uwch na'r canran cenedlaethol o 89.5%.

**Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd cyfnod Allweddol 2 (11 oed)**



| Haf 2014 | Haf 2015 | Haf 2016 | Haf 2017 | Haf 2018 |
|---|---|---|---|---|
| 86% | 89.5% | 89.8% | 92.1% | 91.2% |

Roedd perfformiad dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 yn 92.8% sydd yn gadarn ac wedi aros yn gyson, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 88.1%. Er hynny, bu gostyngiad yn y canran o ddysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (PYD) a enillodd y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

**Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd cyfnod Allweddol 3 (14 oed)**



| Haf 2014 | Haf 2015 | Haf 2016 | Haf 2017 | Haf 2018 |
|---|---|---|---|---|
| 89.11% | 91.3% | 92.0% | 92.8% | 92.8% |

Erbyn cyrraedd Cyfnod Allweddol 4 (14-16 oed - TGAU) gwelwyd ostyngiad ym mhob un o'r prif ddangosyddion o gymharu â llynedd, gyda 15 o bynciau wedi eu diweddaru ac wedi eu sefyll am y tro cyntaf eleni, ynghyd â newidiadau sylweddol i ffiniau graddau, yn arbennig gradd C mewn Saesneg a Mathemateg. Cafodd hynny effaith sylweddol ar ganlyniadau Saesneg, er hynny roedd perfformiad Cymraeg iaith gyntaf yn gyson uchel. Bydd ein ysgolion yn targedu ymyriadau perthnasol er mwyn ceisio gwella perfformiad Saesneg a Mathemateg CA4.


Roedd 43.8% o'r dysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (PYD) yn 2018 wedi ennill 5 gradd TGAU A*-C, gan gynnwys Cymraeg

(iaith) neu Saesneg (iaith), a Mathemateg neu Fathemateg (rhifedd) (TL2+).


Gwelwyd cynnydd mewn perfformiad 2 o'r 3 prif ddangosydd yng Nghyfnod Allweddol 5 (Lefel A), gyda 60.4% o ddysgwyr yn ennill 3 o raddau A*-C, ac yn rhagori ar berfformiad Cymru oedd yn 58.1%

Mae Estyn yn parhau i arolygu ein hysgolion, ac mae'r proffil arolygiadau ar draws y sectorau yng Ngwynedd yn rhagorol. Yn ystod blwyddyn academaidd 2017-18 bu i Estyn gynnal arolygiad mewn 19 ysgol yng Ngwynedd, dyfarnwyd nad oedd angen unrhyw weithredu dilynol mewn 16 o'r ysgolion arolygwyd, ac yn y 3 ysgol arall dyfarnwyd categori dilyniant lleiaf dwys.

Defnyddir proses a matrics cenedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion. Mae lliw'r categoreiddio yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgol - gwyrdd, melyn, melyngoch neu goch (yr ysgolion yn y categori gwyrdd sydd angen y lefel isaf o gymorth, a'r rheini yn y categori coch sydd angen y cymorth mwyaf dwys). Ym mlwyddyn academaidd 2017-18 roedd 91% o'n hysgolion yn y categorïau gwyrdd neu felyn, sydd yn gynnydd o 24% ers 2014-15.




Mae'r gwasanaeth lles yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol. Roedd presenoldeb dysgwyr yn ysgolion cynradd ac uwchradd Gwynedd yn ystod 2018/19 yn 94.8% sydd yn parhau yn gyson dda.




Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o Gonsortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd a Môn, sy'n gosod cyfeiriad i ddarpariaeth ôl-16 yr ardal. Yn ystod 2018-19 mynychodd 846 o ddysgwyr un o gyrsiau partneriaeth 14-16 yng Ngwynedd.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

# Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.


Mae perfformiad yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant ar gyfer 2018/19 yn gadarnhaol ac mae llawer iawn wedi ei gyflawni. Mae gennym lawer iawn i fod yn falch ohono yng Ngwynedd ac mae hynny i raddau yn adlewyrchiad o'r berthynas dda sydd gennym gyda'n partner allweddol o fewn y maes, sef y Bwrdd Iechyd. Rydym wedi amlinellu ers sawl blwyddyn bellach ein bod ar siwrnai o drawsffurfio, ac mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Cymru Iachach' ym mis Mai 2018, a bod y ddogfen hon yn ymateb i Adolygiad Seneddol Ionawr 2018. Mae'r cyfeiriad sydd yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru yn gyson gyda'r cyfeiriad rydym wedi ei chytuno arni fel Sir a bod ein gwaith trawsffurfio lleol yn gyson gyda'r hyn sydd yn cael ei amlygu fel yr ymarfer gorau.

Mae 5 Tîm Lleol wedi eu sefydlu o fewn y maes pobl hŷn ac mae pawb oddi fewn i'r tîm yn rhannu'r un egwyddorion, gan gynnig person arweiniol i'r unigolyn er mwyn hwyluso eu taith drwy'r gyfundrefn gofal ac iechyd. Mae'r newid hwn o ran dull o weithio wedi golygu bod staff yn naturiol fynd ar ôl "beth sydd yn bwysig" i unigolion fel y prif beth sydd yn gyrru eu penderfyniadau. Mae'r ffordd yma o weithio yn profi'n llwyddiannus iawn. Mae hwn yn newid enfawr, ac yn seiliedig ar newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym i gyd yn gweithio. Mae'n ddyddiau cynnar, ond mae'n glir mai dyma'r ffordd ymlaen o ran cael y canlyniadau gorau i bobl Gwynedd.




Mae cydnabyddiaeth fod angen adolygu'r modd yr ydym yn adrodd ar fesur ein pwrpas. Mae'r ystadegau presennol yn nodi fod ***100%*** o'r bobl hŷn ac anableddau corff sydd wedi eu asesu yn gallu ***cyflawni'r hyn sydd yn bwysig iddynt***.

Er mai nifer fechan o achosion sydd wedi adrodd arnynt hyd yma mae'n dangos



arwyddion calonogol. Mae grŵp tasg wedi bod yn adolygu ac addasu'r ddogfennaeth asesu, ac mae'r ddogfennaeth newydd yn cael eu treialu ar hyn o bryd. I'r dyfodol, bydd posib tynnu adroddiad mwy cywir allan o'r dogfennau newydd ynghyd â gwybodaeth fanwl ynghylch unrhyw angen nad yw'n cael ei ddiwallu. Bydd yr wybodaeth yma o gymorth i'r arweinwyr ddatblygu a gwella cefnogaeth yn y timau lleol ac yn bwydo i'r asesiad anghenion poblogaeth ar gyfer comisiynu gwasanaethau addas lleol.

Mae gwaith yn digwydd yn ogystal i wella profiad pobl wrth drosglwyddo o'r ysbytai yn ôl i'r gymuned. Ein gweledigaeth i'r dyfodol yw cryfhau ein timau cymunedol er mwyn gwella ein gallu i ymateb a rhoi cefnogaeth wrth i bobl drosglwyddo o'r ysbyty i'r gymuned. Mae nifer yr unigolion sydd yn methu eu rhyddhau yn amserol o'r ysbyty oherwydd rhesymau cymdeithasol wedi lleihau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, ond rydym yn parhau i wynebu her i ddarparu gwasanaethau gofal o fewn rhai cymunedau o fewn y Sir.

Mae datblygiad y timau adnoddau cymunedol (TAC) a datblygu cynlluniau gofal cartref yn ardal Tywyn a Bethesda, yn ogystal ag arbrawf ar Ward Ogwen Ysbyty Gwynedd, wedi gwella'r sefyllfa trosglwyddo cleifion. Er yn ddyddiau cynnar, mae'n dangos arwyddion diddorol a chadarnhaol iawn. Byddwn yn eich diweddaru ar yr arbrawf yma i'r dyfodol.

Mae cynnig ymyrraeth ataliol yn gyrru'r maes Anableddau Dysgu gyda ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol. Mae'r mesur perfformiad o fewn Tîm Anableddau Dysgu yn ddatblygol ei natur ond mae yn dangos perfformiad cadarnhaol gyda 97% yn adrodd ein bod wedi cyflawni yr hyn sydd yn bwysig. Bydd y Tîm yn edrych ac yn datblygu ar eu mesurau perfformiad i'r dyfodol er mwyn cael darlun mwy cyflawn.

Rydym yn ceisio rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl mewn ffordd syml a hygyrch. Bwriad y gwasanaeth newydd yw rhoi gwybodaeth gywir ac amserol i bobl Gwynedd am yr adnoddau, cysylltiadau a rhwydweithiau sydd ar gael iddynt yn lleol.




Mae gwaith parhaus yn digwydd i ddiweddaru gwybodaeth i sicrhau bod yr wybodaeth a roddir i'r cyhoedd yn glir ac yn gyfredol ac rydym hefyd wedi bod yn gweithio yn agos iawn gyda DEWIS Cymru i ddiweddaru'r wefan ac i hybu ei defnydd. Mae'r wefan yma yn rhoi gwybodaeth i drigolion a staff am yr ystod o wasanaethau/clybiau a gweithgareddau sy'n digwydd o fewn eu hardal.

O fewn y maes gofalwyr, mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru wedi llunio strategaeth sydd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr o bob oedran. Mae'r strategaeth wedi arwain at ddatblygu a chyd gynhyrchu 'cynnig' i ofalwyr, sy'n cynnwys safonau gwasanaeth mae partneriaid yn ymrwymo i'w cyflawni. Dros y misoedd nesaf byddwn yn mynd ati i ystyried y strategaeth a llunio cynllun gweithredu i sicrhau ein bod yn ymrwymo yn llawn i'r safonau ynghyd â datblygu mesurau ystyriol yn erbyn y cynnig.

Mae'r Adran Oedolion wedi rhoi trefniadau cadarn yn eu lle yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau arbenigedd a dealltwriaeth lawn o'r holl faterion sy'n ymwneud â diogelu. Mae cynnydd

cyffredinol wedi bod mewn achosion sy'n ymwneud â materion diogelu yn ddiweddar, ond mae'n amlwg o drafodaethau gydag Awdurdodau eraill o fewn y rhanbarth ein bod mewn sefyllfa gyffelyb. Mewn ymateb i'r cynnydd mewn cyfeiriadau Diogelu mae'r Uned wedi datblygu 'Hwb Diogelu', lle mae'r holl gyfeiriadau Diogelu Oedolion yn cael eu derbyn cyn cael eu dyrannu am ymyrraeth briodol. Mae 400 o ymholiadau Diogelu wedi eu gwneud o fewn cyfnod 12 mis gyda 363 ymholiad wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod (91%).

Mae ein mesurau diogelu oedolion yn awgrymu perfformiad cadarn eto yn 2018/19.




Mae sawl her yn wynebu Gwynedd yn y **maes tai** gan gynnwys poblogaeth sydd yn heneiddio a newid mewn budd daliadau, ond mae cyfleon hefyd yn bodoli. Ein bwriad yw sicrhau fod gennym ddealltwriaeth fanwl o natur y galw am dai o fewn ein cymunedau er mwyn blaenoriaethu ein hymdrechion i greu'r budd cymdeithasol mwyaf.

Mae'r Tîm Tai Gwag wedi gweld llwyddiant ysgubol i'w cynllun 'Grantiau i brynwyr tro cyntaf'. Yn ystod 2018/19, mae'r Tîm wedi derbyn 115 o geisiadau am y grant hwn, ac eisoes wedi cymeradwyo gwerth £1.5 miliwn o grant ar 85 o'r ceisiadau hyn. Bydd yn gymorth i gartrefu bron i 200 o unigolion a theuluoedd. Ers cychwyn y cynllun mae'r Tîm wedi gweld cynnydd yn y nifer o geisiadau am flaendal morgeisi sydd ar gael i helpu prynwyr tro cyntaf i gael mynediad i'r farchnad dai.

Mae oddeutu 1,300 o dai yn wag ar draws y Sir ac mae'r Gwasanaeth Tai wedi gweithio i ddod a'r tai hyn yn ôl i ddefnydd i drigolion Gwynedd. Mae cynnydd positif wedi bod yn erbyn y **mesurydd PSR/004 'Canran o anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1af Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol'.** Erbyn diwedd 2018/19 roedd 61 tŷ wedi dod yn ôl i ddefnydd gyda 141 o bobl Gwynedd wedi cael eu cartrefu.

Mae'r Gwasanaeth Tai wedi bod yn gweithredu er mwyn atal digartrefedd ond hefyd yn darparu cefnogaeth i deuluoedd neu unigolion sy'n canfod eu hunain yn ddigartref. Rydym wedi gweld cynnydd o 35% yn y nifer sydd yn cyflwyno yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd dros y 5 mlynedd diwethaf. Bu cynnydd sylweddol yn y galw yn ystod 2018/19 a darparwyd gwasanaeth ar gyfer 768 o unigolion. Mae perfformiad yr Uned ymhlith y gorau yng Nghymru ar y meysydd atal digartrefedd ac yn cefnogi y pwyslais sydd wedi ei roi ar atal.

Gydag arian grant gan Lywodraeth Cymru, mae'r Gwasanaeth Digartrefedd wedi cyllido prosiect i gyd-gordio gwasanaeth ar gyfer pobl yn gadael carchar. Mae un swyddog yn y tîm yn cymryd cyfrifoldeb am bobl sydd yn dod yn ôl i Wynedd i fyw ar ôl cyfnod yn y carchar a cheisio adnabod a threfnu llety ar eu cyfer i osgoi digartrefedd wrth adael carchar. Mae'r prosiect wedi datblygu perthynas dda gyda'r carchardai, y Gwasanaeth Prawf a nifer o asiantaethau eraill sydd yn gweithio efo'r unigolion. Rydym wedi cefnogi 120 unigolion gyda 41% yn cael eu lletya. Diffyg eiddo un llofft gyda chefnogaeth ar gyfer pobl sengl fregus

sydd yn gadael carchar yw'r rhwystr mwyaf i'r grŵp yma o unigolion.

Mewn ymateb i'r diffyg eiddo un llofft, mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar y cyd gyda'r asiantaeth trydydd sector, Cais, i adnabod eiddo ar gyfer pobl sengl fregus yn ardal Bangor. Mae cynllun yn cael ei ddatblygu sydd yn darparu llety a chefnogaeth ddwys, gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau unigolion iw galluogi i fyw yn annibynnol.

Datblygiad arall o fewn y maes digartrefedd yw'r prosiect 'cefnogaeth ddwys i bobl sydd yn cysgu allan'. Mae'r Gwasanaeth yn cydweithio gyda Tai Gogledd Cymru, a drwy help grant Llywodraeth Cymru mae swyddog cefnogaeth wedi cael ei benodi i geisio annog pobl i gydweithio, helpu i ddatrys eu problemau a'u cefnogi i symud ymlaen i lety sefydlog.

I'r perwyl hyn, mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno cais am arian 'Rhaglen Tai Arloesol' Llywodraeth Cymru ac wedi bod yn llwyddiannus i ddenu arian ar gyfer datblygu unedau hyblyg 'pods'. Bydd yr unedau yma yn cynnig cartref gyda chefnogaeth i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau sydd yn anodd eu lleoli, y bwriad fydd datblygu 4 'pod' ar gyfer 4 unigolyn. Bydd gwaith yn cychwyn yn fuan ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhoi cymorth i bobl sy'n agored i niwed reoli neu gynnal eu tenantiaeth a byw'n annibynnol. Yn ystod 2018/19 mae'r rhaglen yng Ngwynedd wedi cefnogi 2,286 o bobl i gael mynediad a chynnal tenantiaethau parhaol neu dros dro ac atal digartrefedd. Oherwydd newid deddfwriaeth ac amodau'r grant cefnogi pobl, ceir mwy o bwyslais nawr ar dargedu atal digartrefedd drwy ymyriadau cynharach a chreadigol. Rydym wedi datblygu gwasanaeth galw heibio mewn 2 ardal sydd yn cynnig cefnogaeth i bobl ifanc cyn yr angen am lety neu gefnogaeth fwy arbenigol. Ers cychwyn y prosiectau yma yn 2016 rydym wedi cefnogi 449 o bobl ifanc.

**Blaenoriaethau Lleol**

Roedd pryder wedi ei nodi am y nifer uchel o dai aml-ddeiliadaeth (Houses in Mulitiple Occupation – HMOs) ym Mangor sy'n effeithio'n negyddol ar ymddangosiad y ddinas. Mae pryder hefyd fod y sefyllfa yn arwain at nifer uwch na'r cyffredin o dai gwag, gyda sgil effaith ar leihau'r farchnad dai i drigolion lleol.

Bydd y materion hyn yn derbyn sylw o fewn y Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-2024.

Awgrymwyd fod angen datblygu darpariaeth gofal pwrpasol yn ardal Dolgellau ac ym Mhen Llŷn a thrwy gydweithio ag eraill gallwn fesur yn union pa ddarpariaeth sydd ei hangen, a sut orau i'w chyllido. Bydd hyn yn derbyn sylw fel rhan o'r prosiect Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

# Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.


Mae ymarfer a pherfformiad cyffredinol yn y Maes Plant yn ei gyfanrwydd yn gadarn. Bu i hyn gael ei gadarnhau mewn Adroddiad Arolygiad Llawn gan Arolygaeth Gofal Cymru a gyhoeddwyd ar 28 Awst 2018. Bu i'r Arolygwyr nodi bod 'gan wasanaethau plant Gwynedd gryfderau sylweddol ac roedd ganddynt weithlu ymrwymedig a chadarn'. Fe wnaethant hefyd adnabod sawl maes i'w ddatblygu ymhellach ac mae'r meysydd yma yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau sydd eisoes wedi eu hadnabod o fewn Cynllun y Cyngor.

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mor lleol ag sydd bosib, mae 3 Tîm Cefnogi Teulu Teuluoedd yn Gyntaf wedi cael eu sefydlu yn ardaloedd Arfon, Meirionnydd a Dwyfor; gyda Barnardos yn arwain ar y Tîm ym Meirionnydd. Mae'r Timau yma yn cynnwys gweithwyr cefnogi teulu sydd yn cynnig cefnogaeth uniongyrchol i ddatblygu sgiliau rhiantu a chefnogaeth i bobl ifanc yn ogystal â chefnogaeth ymarferol. Mae Gweithiwr Ieuenctid ynghlwm â phob tîm er mwyn gallu canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl ifanc 11-25. Mae modd i deuluoedd yn ogystal gael mynediad at amrediad eang o wasanaethau therapiwtig a chefnogol er mwyn diwallu eu hanghenion unigol. Rydym hefyd wedi comisiynu 'Y Bont' i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth.

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth wedi ei sefydlu hefyd gyda'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o wybodaeth am weithgareddau a sefydliadau o fewn cymunedau a all arwain at ddiwallu anghenion unigolion. Bydd y gwasanaeth yma yn datblygu fwy i'r dyfodol ac mae bwriad i gael Cysylltwyr Cymunedol fel rhan o'r gwasanaeth.

Mae'r Tîm Derbyn Cyfeiriadau yn rhan o'r gwasanaeth uchod erbyn hyn ac er y newid maent eto eleni wedi cynnal safonau uchel wrth ymateb yn amserol i gyfeiriadau.

Yn yr un modd mae'r Timau Gwaith Cymdeithasol wedi cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth amserol i blant a'u teuluoedd.




Rydym yn ffodus iawn yng Ngwynedd bod ein Timau Gwaith Cymdeithasol yn sefydlog a phrofiadol gyda throsiant staff yn isel iawn. Mae 84% o'n staff yn siaradwyr Cymraeg, sef y ganran uchaf yng Nghymru, gyda'r gweddill yn ddysgwyr brwd.

Fel rhan o waith dydd i ddydd y timau gweithredol o fewn yr adran, mae'r gweithwyr yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth proffesiynol. Yn ogystal â hyn, mae ganddynt yr opsiwn i fynd ar ofyn ymyraethau mwy


arbenigol fel yr hyn sy'n cael ei gynnig gan y Tîm Trothwy Gofal. Daeth y Tîm yn weithredol yn 2015 ac mae wedi bod yn ddatblygiad cyffrous a phwysig wrth i ni drawsnewid profiadau plant a theuluoedd. Pwrpas y Tîm ydi gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd bregus, a phlant ar fin fynd i ofal. Mae'r Tîm Trothwy Gofal yn dangos perfformiad boddhaol gyda'r ymyraethau i weld yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a'u teuluoedd sydd yn derbyn Gwasanaeth.

Mae llwyddiant cydweithio rhwng y teuluoedd a'r Tîm yn golygu bod nifer o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd, rhai wedi gallu dychwelyd yn ôl adref o ofal maeth a gofal preswyl, ynghyd â sicrhau bod lleoliadau maeth bregus wedi'u sefydlogi yn sylweddol. Er i'r nifer o blant mewn gofal gynyddu yn ystod cyfnod gweithredu'r tîm, mae'r nifer o blant mewn lleoliadau maeth neu leoliadau preswyl wedi aros yn sefydlog.

Mae hi'n ofyn statudol arnom i sefydlu gwasanaeth IFSS yn ogystal (Integrated Family Support Service) sydd yn cynnig ymyrraeth ddwys i deuluoedd sydd yn wynebu anawsterau camddefnyddio sylweddau a thrais yn y cartref. Rydym wedi bod yn cynnig y gwasanaeth yma ar y cyd â Chyngor Ynys Môn. Yn dilyn gwerthusiad llawn o'r gwasanaeth, er mwyn gwella canlyniadau i'r teuluoedd ac osgoi dyblygu, rydym yn ystod y flwyddyn wedi ail strwythuro. Mae'r gwasanaeth bellach yn cael ei ddarparu o fewn ein timau gweithredol a'r Tîm Trothwy Gofal.

Diwedd Mawrth 2019 roedd 247 o blant yn ein gofal. O gymharu'r nifer plant mewn gofal dros gyfnod o 5 mlynedd mae'r cyfanswm wedi cynyddu o 185 i 247, sef cynnydd o bron i 27%. Serch hyn mae'r nifer o blant sydd un ai mewn lleoliadau preswyl neu leoliadau maeth wedi aros yn gyson neu leihau.

Mae cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal yn ymwneud â phlant sydd wedi eu lleoli gartref gyda'u rhieni o dan Orchymyn Gofal i'r Cyngor, sydd wedi codi o 12 i 64 dros y 5 mlynedd ddiwethaf.




Mae proffil poblogaeth plant mewn gofal wedi newid; mae cyfartaledd cost lleoliadau preswyl wedi cynyddu, ynghyd â chymhlethdod a dwyster achosion. Mae diffyg argaeledd lleoliadau preswyl mwy arbenigol hefyd yn her enfawr i'r Adran. Mae'r diffyg argaeledd o leoliadau preswyl a'r cost cynyddol sydd ynghlwm â nhw yn fater sydd yn derbyn sylw ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Bu'r mater yn destun trafodaeth yn ddiweddar ym Mhwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Ar lefel ranbarthol, o dan arweiniad Penaethiaid Adrannau Plant y Gogledd, mae gwaith yn digwydd ar asesiad dichonolrwydd rhanbarthol i redeg lleoliad preswyl ar y cyd, neu i edrych ar opsiynau gyda darparwyr presennol ar gyfer plant a phobl ifanc Gogledd Cymru.

Mae plant a phobl ifanc yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn ond rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae gennym Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd yn monitro cynlluniau gofal pob un plentyn a pherson ifanc sydd yn ein gofal, ac maent yn rhoi sicrwydd i ni fel Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu sicrhau drwy gydol eu hamser mewn gofal.




Mae gwella profiad plant a theuluoedd sydd yn mynd drwy'r drefn Diogelu yn rhywbeth sydd yn derbyn sylw gan yr Adran, gyda llai o bwyslais yn cael ei rhoi ar yr amserlen sydd yn cael ei osod, ond yn hytrach ar ansawdd y cyswllt mae'r plant a pobl ifanc yn eu cael gyda ein swyddogion. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi cael ei amlygu gan yr arolygaeth yn ddiweddar ac mae ein Swyddogion Adolygu Annibynnol yn edrych ar y ffordd yn maent yn gweithio a sut gallwn wella a datblygu ymarfer.

Rhan allweddol o'r gwasanaeth i blant yw'n gallu fel Cyngor i leoli plant gyda rhieni maeth. Rydym yn hynod falch o'n rhieni maeth fel Cyngor ac mae'r Tîm Maethu yn parhau i sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw adref. Serch hyn mae sicrhau capasiti ac argaeledd rhieni maeth yn her. Rydym wedi cynnal sawl ymgyrch recriwtio dros y 5 mlynedd ddiwethaf i ceisio annog mwy o bobl i fod yn rieni maeth. Ar lefel genedlaethol eto mae cydnabyddiaeth bod diffyg lleoliadau maethu. Fe gyhoeddodd y Grwp Cynghori Gweinidogol ar Ganlyniadau i Blant eu Fframwaith Gweithredu 2017 – 2020 sydd yn anelu i leihau'r niferoedd o blant mewn gofal, gwella profiadau a chanlyniadau gofal, cynnig gwell cefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal, a mynd i'r afael â'r argyfwng mewn gofal.

Fel rhan o'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol mae rhaglen waith manwl mewn lle yn ceisio mynd i'r afael â'r mater. Mae rheolwr prosiect rhanbarthol yn arwain y gwaith yn y Gogledd o ddadansoddi anghenion awdurdodau lleol, dadansoddi llwybrau gofal, dadansoddi proffil y garfan gofal, dadansoddi canlyniadau Llys a lleoliadau a dadansoddi lefelau tor-leoliad. Ar lefel lleol mae gwaith yn bwrw 'mlaen i wella gwaith marchnata i ddenu rhieni maeth, gwella recriwtio a gwella proffil Gwynedd fel asiant maethu. Fel rhieni corfforaethol mae angen i ni fod yn fyw i'r her yma a chefnogi y gwaith yma ble gallwn.

Un o uchafbwyntiau'r Adran yn ystod 2013-18 oedd gweld yr Uned Egwyl Fer Hafan y Sêr yn agor ei drysau am y tro cyntaf i blant a phobl ifanc anabl. Agorwyd yr uned yn Ebrill 2018 ac mae'r gwasanaeth newydd yma yn cynnig darpariaeth egwyl fer fydd yn rhoi gofal a chefnogaeth gan staff arbenigol i blant anabl a'u teuluoedd. Mae'r ddarpariaeth yma yn ateb angen y mae teuluoedd wedi bod yn ei fynegi i'r Tîm Derwen ers tro. Mae'r Uned wedi ei lleoli ar safle Ysgol Hafol Lon ym Mhenrhyndeudraeth.



Yn ogystal, mae gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd sydd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn.

Mae'r rhesymau am unrhyw lithriad yn y perfformiad wedi ei herio ac yn ymwneud yn helaeth a salwch aelodau o staff, argaeledd cyd-weithwyr o gyrff statudol arall ac argaeledd teuluoedd. Mae'r oedi ar y cyfan yn fychan

(dyddiau) ac mae'r oediadau sydd yn hirach wedi eu asesu yn ofalus a ddim wedi golygu ardrawiad annerbyniol ar y plentyn.

Mae'r Adran wedi bod yn llwyddiannus i ddenu grant rhanbarthol i symud ymlaen gyda chynllun arloesol 'Diogelu Plant Effeithiol'. Mae'r cynllun yn ceisio ymateb i anghenion ymarfer gweithwyr o fewn y maes heriol diogelu plant. Yn fras iawn, mae wedi cael ei ddatblygu er mwyn atal camdriniaeth mor effeithiol â phosib, gan arwain at benderfyniadau amserol ble gall gwasanaethau diogelu gamu yn ôl. Y bwriad fydd cyd-weithio gyda'r brifysgol er mwyn adolygu a gwerthuso'r cynllun ac os yw'n dangos llwyddiant ei ledaenu ar draws y rhanbarth fel model o ymarfer da.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

# Adran Economi a Chymuned


Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

## Datblygu Economi Gwynedd

Mae economi Gwynedd yn perfformio yn gymharol dda ar lefel Cymru ond ddim o'i gymharu â rhanbarthau eraill o Brydain ac Ewrop. Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd yn llawer is na rhannau eraill o Gymru ac mae gwerth cynhyrchiant busnesau Gwynedd yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Mae'n bwysig felly fod Cyngor Gwynedd yn cymryd camau rhagweithiol i greu'r amodau fyddai'n galluogi busnesau i dyfu a sbarduno twf yn yr economi, a hynny mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd wrth i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd.


Rydym yn gweithio i dargedu'r sectorau sy'n talu'n dda trwy greu'r amodau sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol. Yn ystod 2018/19 fe grëwyd 57 o swyddi gwerth uchel (cyflog £26,5000 neu fwy), sef yr uchaf yn y 4 mlynedd ddiwethaf, a 29 o swyddi wedi eu diogelu yn uniongyrchol o ganlyniad i'n gweithgaredd. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid drwy arwain ar brosiect STEM Gogledd (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg) gan sicrhau £1.9m i gyd-gordio darpariaeth all-gwricwlaidd STEM i ddisgyblion er mwyn sicrhau gweithlu lleol i fanteisio ar ddatblygiadau fydd yn arwain at swyddi gwerth uchel.

Swyddi gwerth uchel wedi eu creu




Yn ystod 2018/19 mae £14.1miliwn o arian grant neu cydariannu wedi ei ddenu i'r Sir, yr uchaf yn y pum mlynedd diwethaf.

Arian grant neu cydariannu wedi ddenu i'r Sir




Mae lefelau incwm rhent wedi cynyddu wrth weld gofod diwydiannol / menter y Cyngor 96% yn llawn. Mae'r galw am unedau gwag yn parhau ar draws y Sir, ac mae diffyg gofod ar gyfer busnesau sydd eisiau ehangu neu symud i'r ardal.

Yn ystod 2018/19 derbyniodd 213 o fusnesau gymorth, mae hyn yn ostyngiad ar y blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i osod diffiniad mwy caeth o'r mesurydd.




Mae'r adran wedi gweithredu ar 202 o ymholiadau busnes yn ystod y flwyddyn, ac mae'r nifer wedi gostwng wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd diffyg cynlluniau cymorth ariannol.

Fel rhan o'r gwaith i adfywio canol tref Caernarfon er mwyn gwella ansawdd a phrofiad ymwelwyr i'r ardal a gwella gwedd a golwg y dref, cwblhawyd dau gynllun adfywio strategol sef adeilad Rheilffordd Eryri a Chynllun Galeri2.


Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd. Gyda gwerth economaidd o dros £1biliwn, mae dros 15,000 o bobl yn gweithio yn y maes. Yn ystod y flwyddyn mae gwefan newydd Eryri Mynyddoedd a Môr wedi ei chwblhau, gyda dros 1 miliwn o bobl yn ymweld â'r wefan, sy'n gynnydd o 29,000 o gymharu â llynedd. Llwyddwyd i ddenu nawdd gan Croeso Cymru i ariannu gweithgareddau i hyrwyddo Ffordd yr Arfordir y tu allan i'r prif dymor ymwelwyr ar y cyd efo Ceredigion a Penfro.

Mae'r Adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 8 o draethau Baner Las, 4 harbwr a 2 hafan. Mae sylw wedi ei roi yn ystod y flwyddyn i adolygu trefniadau rheoli'r hafan a harbwr i'r dyfodol a rhaglennu gwaith carthu manwl yn Harbwr Pwllheli.

## Cefnogi Cymunedau Cryf ac Iach

Mae Swyddogion Adfywio Bro yn parhau i gynnig cefnogaeth i grwpiau gwirfoddol a mentrau lleol er mwyn ymateb i gyfleoedd ac anghenion lleol. Cefnogwyd 65 o brosiectau i ddatblygu gwasanaeth newydd neu ddiogelu mynediad at wasanaeth yn 2018/19. Cafodd dros £500,000 o gyllid cyfatebol ei fuddsoddi mewn prosiectau Cist Gwynedd.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi parhau i sicrhau mynediad trigolion Gwynedd at gefnogaeth, adnoddau a gwybodaeth, gyda dros 300,000 o bobl yn ymweld â Llyfrgelloedd Gwynedd yn ystod y flwyddyn, a 96% o'r defnyddwyr yn adrodd eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbynnir. Cyflwynwyd system hunanwasanaeth newydd yn y llyfrgelloedd yn 2018/19 a bu 2,422 o blant Gwynedd yn rhan o'r Sialens Ddarllen Haf, gyda chyfanswm o 46,851 o lyfrau plant wedi eu darllen dros y cyfnod.




Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal orielau, amgueddfeydd ac archifau yng Ngwynedd, gyda bron i 60,000 o ymwelwyr i'r orielau ac amgueddfeydd yn ystod 2018/19. Cafodd Neuadd Buddug ei chau yn ystod mis Rhagfyr 2018, gan drosglwyddo i Theatr Derek Williams, sef y ganolfan newydd yn Ysgol Godre'r Berwyn. Lansiwyd ymgyrch genedlaethol Archwiliwch Eich Archif yn Archifdy Caernarfon, ac roedd nifer yn nodi eu

bod wedi cael profiad da wrth ymweld â'r archifau, gyda 94% yn fodlon â'r gwasanaeth.

Gwelwyd newid i'n Gwasanaeth Ieuenctid yn ystod 2018/19 drwy ail-fodelu, a bellach mae'r strwythur newydd mewn lle. Mae'r gwasanaeth ar ei newydd wedd yn cynnig amryw o weithgareddau gan gynnwys gwaith ymgysylltu, gwirfoddoli mewn cymunedau, a sgiliau coginio a chwaraeon.

Mae'r Adran yn gyfrifol am rwydwaith o 12 o Ganolfannau Byw'n Iach, gyda 89% o gwsmeriaid yn fodlon gyda'r gwasanaeth yn 2018/19. Mae gwaith dwys wedi wneud yn ystod y flwyddyn er mwyn sefydlu cwmni Byw'n Iach Cyf ac ar 1af o Ebrill 2019 trosglwyddwyd rheolaeth o'r canolfannau i'r cwmni newydd trwy gytundeb.

Mae'r Adran yn trefnu a chynnal amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon o fewn ysgolion, y gymuned ac yn yr awyr agored gan gynnwys sesiynau Teulu Actif, Triathalon, Sboncen a Badminton. Mae cynllun Arweinwyr y Dyfodol wedi profi'n lwyddiant eleni, gyda nifer yn ennill gwobrau gwirfoddoli yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Tîm Cyfeirio i Ymarfer yn cefnogi trigolion Gwynedd i wella cyflwr eu hiechyd, gyda 65% yn adrodd fod ansawdd eu bywyd wedi gwella yn dilyn y gefnogaeth, ac 80% wedi gweld cynnydd yn lefel eu ffitrwydd.

**Blaenoriaethau Lleol – Cynllun y Cyngor**

Un o'r blaenoriaethau lleol a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor ydi'r dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflog da i ardaloedd Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn, ac mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel yn datblygu cyfleoedd newydd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr fydd yn dod ag elw i'r cymunedau hyn.

Mae gwella cysylltedd gwael ffonau symudol a band eang yn ardal Dolgellau yn un arall o'n blaenoriaethau lleol, ac rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r Sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol.

Lansiwyd pecynnau cymorth ariannol newydd yn ystod y flwyddyn ar gyfer busnesau lleol, sef Cronfa Benthyciadau Di-log Penygroes a Bethesda, a'r Gronfa Adnewyddu a Buddsoddiad Eiddo Canol Dinas Bangor sydd yn ymateb i'r blaenoriaethau lleol i adfywio ardaloedd Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle a Bangor. Yn ystod y flwyddyn, mae 4 eiddo gwag wedi dod nol i ddefnydd yn dilyn derbyn cymorth.

Yn sgil pryderon ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol yn Ffestiniog mae'r tîm adfywio wedi cynnal arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol, sy'n adnabod cyfle i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

# Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

## Glanhau Strydoedd

Mae cynnal amgylchedd lleol o safon uchel ac edrychiad ein strydoedd a mannau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd, ac o ran yr amgylchedd lleol mae'n hynod bwysig bod ein strydoedd yn lân a diogel. Mae perfformiad y Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd yn 2018/19 yn 74.1% gan ddangos gwelliant ar berfformiad diwedd blwyddyn 2017/18 (71.95%).

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnal arolwg i sefydlu faint o 'ddiffygion' fel sbwriel, chwyn, baw cŵn, gwm cnoi a stympiau sigaréts sydd ar unrhyw stryd. Yn ôl yr arolwg annibynnol, mae safon glendid ac edrychiad strydoedd Gwynedd yn parhau i fod yn dda ac mae'n debyg bod newid ymddygiad er gwell yn ddiweddar i atal llanast.


## Ffyrdd

Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y sir ac er mwyn sicrhau hyn mae'r Cyngor yn cynnal 2,697 cilomedr o ffyrdd sirol ynghyd â 199 cilomedr o Gefnffyrdd (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru). Ar hyn o bryd mae ein priffyrdd yng Ngwynedd, sef ffyrdd Dosbarth A a B, mewn cyflwr da gyda llai na 4% ohonynt yn ddiffygiol ac angen sylw. Gyda lleihad yn yr arian sydd ar gael i Lywodraeth Leol, mae ein gallu i gynnal y ffyrdd dosbarth C a di-ddosbarth i'r un safon yn anoddach.

Oherwydd y pwysau ariannol ar y Cyngor mae'n anorfod y bydd pwysau pellach ar y gyllideb cynnal ffyrdd, a bydd hi'n her i atal dirywiad yn safon ein ffyrdd, yn enwedig ffyrdd o lai o flaenoriaeth sef Dosbarth C a Di-ddosbarth.

Tra bod y cyflwr yn sefydlog gyda 14.5% yn ddiffygiol ac angen sylw, bydd y gostyngiad cyllid yr ydym yn ei wynebu yn ei gwneud yn anoddach cadw at y perfformiad presennol.

Canran priffyrdd sydd mewn cyflwr gwael




## Gwastraff

Mae'n hanfodol ymdrin â gwastraff mewn modd gywir os am amddiffyn ein hamgylchedd ac osgoi creu problemau i genedlaethau'r dyfodol.




Erbyn diwedd 2018/19 roedd 63.3% o wastraff cartrefi Gwynedd yn cael ei ailgylchu, ailddefnyddio neu ei gompostio, sy'n gynnydd o 8% ers 2014/15.


Drwy ymroddiad trigolion a busnesau'r sir i leihau ein gorddibyniaeth ar waredu gwastraff i'w dirlenwi, mae'r newid hwn wedi bod yn allweddol i wella ein perfformiad.

Mae busnesau'r sir hefyd wedi cyfrannu at welliant ac erbyn diwedd 2018/19 roedd 48% o wastraff masnachol yn cael ei gompostio neu ailgylchu, sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â 35.45% yn 2014/15.

Mae hefyd yn bwysig i bobl Gwynedd bod eu gwastraff yn cael ei gasglu pan rydym yn dweud yr ydym am ei gasglu. Yn ystod 2018/19, gwnaethom gyfanswm o 4,556,708 o gasgliadau gwastraff, gyda 12,314 o gwynion wedi eu derbyn nad oeddem wedi casglu (neu 0.27%). Roedd rhai o'r methiannau yma oherwydd y tywydd garw ac eraill oherwydd diffygion ar ein rhan ni. Er mwyn gwella'r gwasanaeth rydym wedi bod yn adolygu ein arferion gwaith er mwyn gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei roi i bobl Gwynedd. Bydd y newidiadau yma yn dod i rym yn raddol yn 2019/20.

Mae canran y gwastraff trefol a anfonir i dirlenwi yn is ar gyfer 2018/19, sef 18% o'i gymharu â 43.33% ar gyfer blwyddyn 2014/15. Gellir priodoli'r gwelliant hwn i'r ailgylchu a'r ffaith fod mwy o wastraff gweddilliol wedi ei drin drwy drefn llosgi ac o ganlyniad ddim wedi'i anfon i dirlenwi.



## Goleuadau Stryd

Rydym yn parhau i drwsio goleuadau stryd yn brydlon, ac ar gyfartaledd mae'n cymryd dau ddiwrnod a hanner i'w trwsio – ffigwr sydd wedi bod yn eithaf cyson dros y 5 mlynedd diwethaf.

Fel rhan o raglen "buddsoddi i arbed" y Cyngor mae gennym raglen sylweddol i newid goleuadau stryd i dechnoleg LED sydd wedi bod yn weithredol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod 2018/19 newidiwyd 1,680 o unedau golau stryd ac arwyddion i LED ac ers 2015/16, rydym wedi newid dros 10,000 o oleuadau ac arwyddion stryd i dechnoleg LED. Yn sgil y newidiadau yma rhagwelir y byddwn yn arbed £260,000 y flwyddyn yn ogystal â gostyngiad mewn allyriadau carbon (414 Co2). Bydd rhaglen newydd 3 blynedd i newid gweddill y goleuadau i LED yn cychwyn yn Ebrill 2019 a byddwn yn arbed £185,000 yn ogystal â gostyngiad mewn allyriadau carbon (572 Co2).

## Toiledau Cyhoeddus

Mae cyfanswm o 62 o doiledau cyhoeddus yn y sir, ynghyd â 35 o doiledau cymunedol sydd ar gael mewn lleoliadau fel caffis, tafarndai ayb ynghyd ag 17 o doiledau cyhoeddus sy'n eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Fel siroedd ledled Cymru, mae Gwynedd wedi wynebu cyfnod o dorri sylweddol ar gyllidebau sydd wedi golygu'r angen i adnabod arbedion yng ngwariant ar doiledau cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf. Ond drwy gydweithio gyda chynghorau cymuned a thref a grwpiau cymunedol, rydym wedi gallu cynnal nifer uchel o doiledau at ddefnydd y cyhoedd yma yng Ngwynedd. Fis Mai 2019 fe wnaethom fel Cyngor fabwysiadu Strategaeth Toiledau Cyhoeddus, ac mae hi'n ofyn statudol ar bob awdurdod i wneud hynny.

**Blaenoriaethau Lleol**

Mewn ymateb i gwynion am flerwch a sbwriel yn cael ei ollwng neu ei golli o gerbydau casglu sbwriel ac ailgylchu oherwydd gwaith ein gweithlu, mae nifer o gamau wedi eu rhoi yn eu lle dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn gwella'r sefyllfa yma. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cerbydau 'Romaquip' yn lle cerbydau 'Kerbside', sy'n golygu nad oes tipio uwchben uchder y cerbydau ac felly'n fwy diogel i'r gweithlu. Mae defnydd o'r cerbydau newydd hefyd yn golygu lleihad yn y nifer o ddeunyddiau sy'n cael eu gollwng o'r cerbydau ac o ganlyniad nad oes deunyddiau yn cael eu cadw yn rhydd wrth symud o eiddo i eiddo sy'n arwain at well trefn wrth wasanaethu'r cartgylchu. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i ymateb i bryderon ein trigolion ac yn sicrhau gwelliant yn y sefyllfa drwy ganolbwyntio ar y cerbydau llai.

Yn ystod 2018/19, rydym wedi parhau i gydweithio ar brosiect Delwedd Bangor sydd yn bartneriaeth sydd wedi ei sefydlu gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Dinas, BID Bangor, Prifysgol Bangor a sawl mudiad arall, ac mae'r gwaith yma yn symud yn ei flaen yn dda. Prif ffocws y grŵp yw gwella delwedd y Ddinas. Byddwn yn dysgu o'r gwaith yma ym Mangor ac yna byddwn yn cyflwyno'r gwersi i ardaloedd eraill. Rydym hefyd yn cydweithio â grŵp yn Nyffryn Nantlle er mwyn gwella edrychiad yr ardal. Byddwn yn dysgu o'n profiadau o weithio gyda'r prosiect ym Mangor wrth fwrw ymlaen gyda'r gwaith yma.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.


# Adran Amgylchedd

Prif feysydd Cyfrifoldeb yr Adran Amgylchedd yw Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad a'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol

**Cynllunio**

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd cymunedau, yr economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol), gyda 90% o gwsmeriaid y gwasanaeth yn datgan eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth.


Canran o Gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r lefel gwasanaeth Cynllunio




O'r rhai sy'n anfodlon mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn nodi anfodlonrwydd gyda'r trefniadau cysylltu gyda'r gwasanaeth, gydag anhawster cyfathrebu yn cael ei nodi yn y sylwadau a dderbyniwyd gan gwsmeriaid hapus yn ogystal â'r rhai anhapus. Bydd y gwasanaeth yn gweithio i wella'r sefyllfa yn 2019/20.

Ar gyfartaledd yn 2018/19 roedd ceisiadau cynllunio yn cymryd 57 diwrnod i'w penderfynu gan swyddog, gyda cheisiadau oedd yn derbyn penderfyniad Pwyllgor yn cymryd 137 diwrnod ar gyfartaledd. Mae'r perfformiad yn adlewyrchu'r ffaith fod y ceisiadau sydd yn mynd gerbron Pwyllgor yn tueddu i fod yn geisiadau cymhleth neu gynhennus, ac nid yw'n anarferol i benderfyniadau gael eu gohirio er mwyn rhoi cyfle i dderbyn mwy o wybodaeth neu gynnal trafodaethau.

Mae tai fforddiadwy yn fater sydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor, gyda 48% o'r tai a ganiatawyd trwy'r drefn gynllunio yn 2018/19 yn dai fforddiadwy, naill ai trwy gytundeb 106 neu oherwydd eu bod yn dai a adeiladwyd gan landlord cymdeithasol cofrestredig. Mae'r ffigwr yma'n gynnydd o'r 38% a gofnodwyd yn 2017/18, ac mae'n parhau i fod yn uwch na'r targed uchaf yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, sef bod datblygiadau yn cynnwys 30% o dai fforddiadwy. Golyga hyn fod y Gwasanaeth Cynllunio yn cyfrannu yn uniongyrchol tuag at y ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Ngwynedd mewn ffordd arwyddocaol.





Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd yn ymdrin â gorfodaeth cynllunio, gan gymryd camau gorfodaeth ar ddatblygiadau sydd heb gael caniatâd cynllunio. Bu iddynt ymdrin ag oddeutu 218 o achosion yn 2018-19. Ar gyfer 2018-19 roedd 61% o'r achosion wedi eu harchwilio, gan gymryd 37 diwrnod ar gyfartaledd i wneud hynny. Yn ystod y flwyddyn cofnodwyd 40 achos oedd angen camau cywiro, gyda 35% wedi cwblhau camau cywiro a'r 65% arall ar y gweill. Dylid nodi nid y unig fod y broses o gymryd camau gorfodaeth yn un hir oherwydd natur gofynion ymchwilio, gofynion statudol a phrosesau cyfreithiol, ond bod datrysiad boddhaol i'r achos yn aml yn bwysicach i'r cwsmer na'r amser a gymerwyd i gyflawni hynny.

## Hylendid Bwyd




Mae 99.49% o sefydliadau bwyd Gwynedd yn cydymffurfio'n fras gyda safonau hylendid bwyd, sef 2,071 allan o 2,088 sefydliad.




Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi ei chael hi'n anodd iawn dygymod gyda'r nifer o archwiliadau sy'n ofynnol, a bu'n rhaid darganfod adnoddau ychwanegol i glirio'r ôl-groniad archwiliadau sydd wedi datblygu. Ar gyfer 2018/19 mae yna ôl-groniad o 77 archwiliad hylendid bwyd, ynghyd ag ôl-groniad o 203 archwiliad Safonau Bwyd. Yn y sefydliadau bwyd categoriau risg is y mae'r ôl-gronad yma, ond yng Ngorffennaf 2018 penderfynodd y Cabinet i ddyrannu mwy o adnoddau i'r gwasanaeth er mwyn iddynt benodi dau swyddog ychwanegol i fedru ymdopi â'r gwaith. Fodd bynnag, mae'n cymryd amser i ddod yn gymwys yn llawn i gynnal archwiliadau hylendid bwyd, ac felly ni fyddwn yn gweld effaith lawn yr adnoddau ychwanegol am beth amser.

Fel arall fe welir perfformiad calonogol ym maes Gwarchod y Cyhoedd gyda'r holl archwiliadau llygredd awyr a sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu harchwilio yn unol â'r rhaglen. Llwyddwyd i ddatrys 698 o droseddau drwy ymyrraeth gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ystod y flwyddyn gyda 49 arall yn aros i'w datrys.

## Traffig a Gwaith Stryd



Yr hyn sy'n bwysig i'r sawl sy'n gofyn am orchmynion traffig yw gweld y gorchymyn yn dod i rym, ac mae'r arfer yr oedd gennym o hysbysebu nifer o geisiadau mewn un pecyn wedi dod i ben gan y byddai'n aml yn bosib i un gorchymyn cynhennus ddal nifer o orchmynion eraill yn ôl. Mae'r newid yma mewn canfyddiad o'r broses wedi arwain at gwtogi'r amser cyfartalog a gymerir i osod Gorchymyn Traffig yn ei le o 519 diwrnod i 297.

## Cludiant Cyhoeddus

Mae'r sector trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngwynedd wedi wynebu cyfnod cythryblus dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r gwasanaeth wedi gorfod ymateb yn gyflym i newidiadau mawr o ran y darparwyr oedd ar gael yn y maes. Erbyn hyn mae'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad wedi dechrau ar y gwaith o gynnal arolwg cynhwysfawr o'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Bydd y Gwasanaeth yn cydweithio gyda Phrifysgol Bangor er mwyn cynllunio rhwydwaith fydd wedi ei seilio ar werth cymdeithasol, yn hytrach na chost a nifer teithwyr. Bydd hefyd yn ystyried dulliau arloesol o gynnig rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Disgwylir i'r adolygiad fod wedi ei gwblhau erbyn Medi 2019, gan ddod yn weithredol yn Ebrill 2020.



Yn y cyfamser mae'r gwasanaeth yn parhau i ymdrin â chwynion a dderbynnir gan y cyhoedd, a chydweithio gyda'r diwydiant i gynnal gwasanaethau sydd yn ateb anghenion Pobl Gwynedd. Mae'r Gwasanaeth yn monitro prydlondeb gwasanaethau bysus, gyda 83% o wasanaethau yn cyrraedd yn brydlon yn 2018/19. O'r gwasanaethau nad oedd yn brydlon, roedd y rhan helaeth wedi cyrraedd o fewn 5 munud i'r amser ar yr amserlen.

**Eiddo**


Mae Teleofal, neu dechnoleg gynorthwyol yn gymorth i leihau risgiau o fewn y cartref gan alluogi unigolion bregus i fyw bywyd annibynnol. Yn Ionawr 2018 bu i Wasanaeth Eiddo'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb am wasanaeth mewnosod cyfarpar teleofal yng Ngwynedd. Bu i'r amser yr oedd yn ei gymryd i fewnosod offer Teleofal ddisgyn o oddeutu 53 diwrnod i 5 diwrnod yn dilyn ei drawsnewid o dan ofal y Gwasanaeth Eiddo. Wrth ddod yn fwy cyfarwydd gyda'r gwaith, mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i wella'n raddol, gan gymryd 4.5 diwrnod ar gyfartaledd erbyn diwedd 2018/19.

**Allyriadau carbon**

Er mwyn ymateb i'r heriau sy'n codi o newid yn yr hinsawdd, a sicrhau fod cymunedau Gwynedd yn cael eu paratoi ar gyfer y dyfodol bu i'r Cyngor fabwysiadu cynllun rheoli carbon fis Mai 2010. Mae'r cynllun wedi bod yn fuddsoddiad sylweddol o £3,750,170 er mwyn gostwng allyriadau carbon gweithgareddau'r Cyngor, yn ogystal â chyfrannu tua'r amcan ehangach o Wynedd garbon isel.

Mae natur cynlluniau o'r fath yn annatod yn cael eu mesur dros gyfnod hir, gyda gwahaniaethau bychan rhwng cyfnodau monitro yn cael effaith gronnus dros dymor ehangach. Ers sefydlu'r waelodlin yn 2005/06 mae allyriadau carbon y Cyngor wedi gostwng 43%, gyda gostyngiad o 4.1% pellach yn 2018/19, ac wedi arwain at arbedion ariannol cronnus o £4,062,958 ers cychwyn gwireddu'r cynllun.

Canran gostyngiad mewn allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor




Yn ystod 2018/19 daeth pwysigrwydd llwyddiannau'r cynllun rheoli carbon i'r amlwg wrth i'r Cyngor (7/3/19), Llywodraeth Cymru (29/4/19) a Senedd Prydain (1/5/19) ddatgan argyfwng hinsawdd. Golyga'r datganiad fod y Cyngor yn bwriadu cymryd camau pellach ac arloesi wrth ymdrechu am ddyfodol di-garbon.

**Blaenoriaethau Lleol**

Nodwyd fod pryder yn ardal Caernarfon a Dyffryn Ogwen am y diffyg llefydd parcio i bobl leol. Roedd gan drigolion ardal Penllyn bryder am y diffyg llefydd parcio i weithwyr ar stad ddiwydiannol Y Bala, sydd bellach wedi ei ddatrys. Ni fu i'r adran lwyddo i ymateb i'r pryderon hyn yn ardaloedd Caernarfon a Dyffryn Ogwen yn 2018, a byddwn yn ymchwilio ac yn edrych ar opsiynau er mwyn cyfarch y broblem.


Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

# Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)


Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu'n fasnachol yn y maes peirianyddol ac adeiladu er mwyn sicrhau swyddi o ansawdd uchel o fewn y sir a cheisio creu elw i helpu gyda sefyllfa ariannol y Cyngor.

Ar gyfer 2018/19 llwyddwyd i greu elw oedd £58,744 yn uwch na'r targed a osodwyd ar ein cyfer.





Mae'r Uned Rheolaeth Adeiladu yn cydweithio gyda'r cyhoedd a phartneriaid er mwyn i'n cymunedau gael adeiladau diogel sydd yn cyd-fynd â'r gofynion technegol diweddaraf. Mae'r Uned yma'n gyfrifol am sicrhau bod gwaith adeiladu yn cwrdd â'r safonau adeiladu. Mae hyn yn bwysig a gwerthfawr i bobl Gwynedd, gan y bydd yn sicrhau bod unrhyw waith adeiladu yn ddiogel ac o'r safon angenrheidiol.

Mae'r Uned Rheolaeth Adeiladu hefyd yn parhau i roi gwasanaeth da i drigolion gyda'r sgôr bodlonrwydd yn parhau'n uchel ac yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn arolwg boddhad cwsmeriaid yn 2018/19, rhoddwyd sgôr cyfartalog o 9.6 allan o 10. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu'r rheswm am unrhyw anfodlonrwydd.




Un o ddyletswyddau'r Uned Rheolaeth Adeiladu yw prosesu ceisiadau Cynlluniau Llawn. Mae'r Uned yn anelu i archwilio'r cynlluniau o fewn 15 diwrnod, gyda'r gwaith penderfyniad ar y cais yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosib. Yn ystod 2018/19, cymerwyd 16 diwrnod ar gyfartaledd i wirio ceisiadau cynllunio llawn (penderfyniad cyntaf), sef yr un nifer o ddyddiau ag yn 2017/18. Fodd bynnag, mae hyn un diwrnod yn fwy na'r targed o 15 diwrnod.




Yn yr un modd ag ardaloedd arfordirol eraill yng Nghymru, mae rhai ardaloedd arfordirol yng Ngwynedd ble mae mwy o berygl o lifogydd. Rydym yn cydweithio gyda'n partneriaid yn lleol a rhanbarthol i geisio adnabod a lleihau'r risg llifogydd i gymunedau Gwynedd.



Yn ystod 2018/19, mae'r Uned wedi denu grant er mwyn cynnal astudiaethau i weld sut y gellir gostwng y risg llifogydd yn ardaloedd Aberdyfi, Abermaw, Y Felinheli, Bae Hirael Bangor, Tremadog a Rhostryfan. Yn ogystal, fe wnaed gwelliannau yn ystod y flwyddyn yn Llanberis, Borth y gest, Abererch, Tal y Bont a Phwllheli. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 176 eiddo preswyl wedi elwa yn uniongyrchol o ran risg llifogydd yn sgil gwelliannau a gwblhawyd oherwydd grantiau.

Nid oes modd i'r Cyngor ymladd natur ym mhob achos wrth gwrs ac rydym yn parhau i geisio cynorthwyo trigolion Friog i gynllunio ar gyfer y dyfodol lle bydd yn anorfod y bydd grymoedd natur yn ein gorchfygu.

Rydym yn parhau i gydweithio gyda'r sector gyhoeddus, a chyrff eraill drwy godi ymwybyddiaeth am beryglon llifogydd ar erydu arfordirol.

Yn ystod 2018/19 rydym wedi cwblhau'r gwaith o arolygu cyflwr ein hasedau a sicrhau ein bod yn cadw'r asesiadau yma yn gyfredol. Dengys yr arolwg cyntaf yma, fod gennym 3 ased allan o 183 sydd angen sylw ar fyrder gyda 21 pellach fydd angen sylw cyn bo hir. Bydd yr asedau yma yn derbyn sylw yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

# Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth

Mae'r Adran Cyllid yn sicrhau'r gefnogaeth briodol i'r Cyngor wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol, yn ogystal â darparu gwasanaethau megis casglu refeniw a thalu budd-daliadau mewn ffordd deg. Mae gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor hefyd yn rhan o'r Adran Cyllid ac maent yn cynnig arweiniad a chefnogaeth dechnegol o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor.


**Rheolaeth Ariannol ac Arbedion**

Ers 2015 mae cyllideb y Cyngor wedi lleihau, gyda chyfanswm o £25miliwn o arbedion wedi eu cyflawni dros y 4 mlynedd ddiwethaf. Golyga hynny fod gwaith rheolaeth ariannol a chefnogaeth gyfrifol yr Adran Cyllid yn gaffaeliaid i adrannau'r Cyngor wrth gyflawni i bobl Gwynedd mewn cyfnod ariannol anodd. Trwy reolaeth ariannol gydwybodol, mae'r Adran wedi llwyddo i gynorthwyo'r Cyngor i gadw o fewn ei gyllideb pob blwyddyn rhwng 2015/16 a 2018/19.

Yn yr hinsawdd ariannol lle mae gofyn i'r Cyngor leihau ei gyllidebau bob blwyddyn oherwydd y cyfyngiadau parhaus ar wariant cyhoeddus, yn ogystal ag amcangyfrifon ariannol dibynadwy a chyfrifon cywir a theg, yr Adran Gyllid sy'n gyfrifol am drefniadau cadarn y Cyngor ar gyfer sicrhau fod yr holl adrannau yn gwireddu'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos fod 96% o'r cynlluniau wedi'u rhaglennu i'w cyflawni erbyn diwedd 2018/19 wedi eu gwireddu, sef gwerth £23 miliwn o arbedion. O ran cynlluniau 2018/19 mae 73% o'r £2.5 miliwn o arbedion a gynlluniwyd wedi eu gwireddu yn y flwyddyn gyda'r disgwyl i 1 cynllun gael ei gyflawni'n amserol a 7 cynllun yn llithro.

Mae gweddill unedau cefnogol yr Adran Cyllid yn perfformio'n dda gyda'r mesurau a ddefnyddir yn dangos fod perfformiad yn cael ei gynnal neu'n gwella. Mae bodlonrwydd adrannau eraill gyda gwasanaethau'r Adran yn parhau'n uchel, gan roi sicrwydd bod cefnogaeth o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu.




**Archwilio Mewnol**

Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Yn ystod 2018/19 bu i'r gwasanaeth gynnal 58 archwiliad, gyda'r mwyafrif naill ai wedi derbyn dyfarniad lefel sicrwydd 'uchel' neu 'digonol', ond 6 archwiliad wedi derbyn barn 'cyfyngedig'.

Yn ogystal â'r gwaith Archwilio Mewnol mae'r gwasanaeth wedi cynnig gwasanaeth archwilio mewnol i 67 o gynghorau tref a chymuned Gwynedd a Môn. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol iawn gan y cynghorau fu'n cydweithio gyda'r Gwasanaeth, sydd yn ei dro wedi arwain at wahoddiadau i gyflawni'r un rôl eto.

Defnyddiodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad Archwilio Mewnol Gwynedd ar Gyngor Tref Caergybi fel enghraifft o arfer da, a hefyd cyfeiriodd CIPFA at arloesedd Archwilio Mewnol Gwynedd mewn dogfen arweiniol, sydd yn arwydd arall o safon uchel y gwasanaeth a ddarparwyd.


**Pensiynau**

Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 o gyflogwyr, gan gynnwys cynghorau Gwynedd, Môn a Chonwy. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar weithredu'n gywir a phrydlon ar ran ei aelodau. Yn ystod 2018/19 bu i berfformiad y gwasanaeth arafu ychydig, gan gymryd 4.64 diwrnod gwaith i anfon llythyr sy'n hysbysu amcangyfrif o werth buddion ymddeol, ond roedd perfformiad cyffredinol y gwasanaeth ar y cyfan yn sefydlog wrth ddygymod gyda chryn drosiant staff. Mae'r perfformiad serch hynny yn welliant sylweddol o'r 9.5 diwrnod a gofnodwyd ar gyfer 2015/16. Mae gwaith gwella systemau a chyfathrebu gyda sefydliadau eraill sy'n rhan o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn dwyn ffrwyth er mwyn awtomeiddio casglu'r wybodaeth angenrheidiol yn gynt a chadw gwybodaeth aelodau'r cynllun yn gyfredol.




**Trethi**

Ar 1 Ebrill 2018 daeth y 'Premiwm' o 50% i rym ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Canlyniad hyn oedd pwysau gwaith ychwanegol ar y gwasanaeth wrth ddeilio gydag ymholiadau, a gwelwyd ostyngiad bychan yn y gyfradd gasglu Treth Cyngor o fewn y flwyddyn (96.65% yn 2018/19 o'i gymharu â 97.13% yn 2017/18). Er i ni weld gostyngiad yn y gyfradd casglu o fewn y flwyddyn, mae'r rhan helaeth o'r arian hwnnw sy'n ddyledus yn parhau i gael ei gasglu yn y pen draw.





**Budd-daliadau**

Roedd 2018/19 yn flwyddyn drawsnewidiol gyda chychwyniad Credyd Cynhwysol y 'DWP' yng Ngwynedd yn Rhagfyr 2018. Bydd mwy o effaith Credyd Cynhwysol ar waith prosesu Budd-dal Tai a Gostyngiadau Treth Cyngor yn 2019/20. Yn 2018/19, roedd y cyfartaledd amser i brosesu cais budd-dal newydd yn 19.62 diwrnod, a 5.51 diwrnod i brosesu newid mewn amgylchiadau, o'i gymharu â 18.51 a 5.65 diwrnod yn 2017/18. Rydym yn parhau i gymharu'n ffafriol gyda ffigyrau prosesu cenedlaethol diweddaraf o 20 ac 8 diwrnod a gyhoeddwyd gan y 'DWP'.

**Incwm**

Mae'r Gwasanaeth Incwm yn prosesu derbyniadau arian a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon. Roedd y gwasanaeth wedi llwyddo i gasglu 94.64% o'r anfonebau a godwyd gan y Cyngor yn 2018/19, ac mae perfformiad y gwasanaeth wedi gwella'n raddol yn ystod 2018/19, gyda chyfradd casglu prydlon o 88.86% o ddyledion amrywiol erbyn diwedd y flwyddyn, o'i gymharu â chyfradd 86.47% ar ddechrau'r flwyddyn. Serch hynny, mae'r Gwasanaeth Incwm yn gweithredu'n sensitif i amgylchiadau dyledwyr trwy gytuno trefniant talu gyda rhai dyledwyr.




**Technoleg Gwybodaeth**


Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) yn darparu a chefnogi technoleg o bob math i helpu pobl Gwynedd gael mynediad rhwydd at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor, ac i staff weithio'n effeithlon.

Mabwysiadwyd Strategaeth TG bresennol y Cyngor yn 2016 ac mae gweithredu'r strategaeth wedi galluogi'r gwasanaeth i ddatblygu ac arloesi wrth ddarparu cefnogaeth i'r Cyngor. Mae'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth newydd ar waith a bydd yn barod erbyn hydref 2019/20.

Newid amlwg sydd wedi deillio o'r Strategaeth yw datblygu gwasanaethau ar-lein, a hunanwasanaeth yn arbennig, er mwyn cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor. Roedd ambell wasanaeth yn bodoli'n barod ar wefan y Cyngor, ond yn Nhachwedd 2017 fe ail-lansiwyd y ddarpariaeth gan gyflwyno mwy o wasanaethau a chryfhau'r ddarpariaeth i dracio statws y ceisiadau am wasanaeth. Daeth datblygiad pellach yng Ngorffennaf 2018 gydag "ap Gwynedd" yn cael ei lansio ar gyfer dyfeisiadau Apple ac Android ac yn mynd o nerth i nerth, gyda'r 'ap' bellach wedi ei lawrlwytho 902 gwaith ac wedi mwy na dyblu yn ei nifer rhwng Ionawr a Mai 2019.

Mae'r ddarpariaeth dechnegol yn dod yn agosach at y bobl ac fel rhan o waith dadansoddi ar gyfer hunanwasanaeth ar-lein fe gyflwynwyd apiau symudol ar gyfer nifer o swyddogion sy'n cyflwyno gwasanaethau uniongyrchol i'r cyhoedd. Technegwyr gwastraff yn bennaf sy'n defnyddio'r ddarpariaeth yma. Mae'r dechnoleg yn eu galluogi i weithredu ar geisiadau'n gynt a bod gwybodaeth gyfredol ar gael i'w rannu gyda phobl Gwynedd ar unwaith. Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth yn cael ei hymledu i fwy o wasanaethau'r Cyngor i'r dyfodol.

Un o flaenoriaethau'r Gwasanaeth TG yw sicrhau fod gwefan y Cyngor ar gael i'r cyhoedd, a rhwydwaith y Cyngor ar gael i'w staff. Mae perfformiad y gwasanaeth yn yr agweddau yma wedi bod yn gyson, gyda'r rhwydwaith ar gael 99.97% o'r amser yn 2018/19. Bu i'r Cyngor ddioddef digwyddiad sylweddol yn haf 2018 a achosodd i systemau'r Cyngor beidio bod ar gael am gyfnod, ond fe lwyddwyd i adfer systemau â blaenoriaeth uchel yn gyflym, gyda'r gweddill yn dilyn oddi fewn y dyddiau nesaf. Gwnaethpwyd nifer o newidiadau yn dilyn y digwyddiad i gryfhau gwydnwch y ddarpariaeth er mwyn osgoi digwyddiad o'r fath yn y dyfodol. Er bod y sefyllfa wedi gwella'n sylweddol, mae ambell gam pellach i fynd i gwblhau'r newidiadau a bydd hyn yn dod i ben yng ngaeaf 2019/20.



# Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

## Cyswllt Cwsmer

Bu 2018/19 yn flwyddyn lwyddiannus o ran cynyddu'r nifer o wasanaethau sydd ar gael i drigolion Gwynedd drwy hunanwasanaeth ar-lein. Bellach, mae'n bosib i bobl Gwynedd gael mynediad i nifer gynyddol o wasanaethau ar amser sy'n gyfleus iddynt, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, ac mae hefyd yn cynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor am wasanaeth.




Erbyn hyn, mae trigolion a busnesau Gwynedd yn gallu cysylltu ynghylch 17 o faterion priffyrdd, archebu a thalu am docyn parcio, talu am ginio ysgol, a chreu cyfri hunanwasanaeth ar gyfer busnesau. Hefyd, rydym wedi lansio 'ap' i ffôn symudol sy'n rhoi mwy o ddewis i drigolion sut a phryd i ofyn am wasanaethau. Yn ystod 2018/19 mae 9,129 o drigolion wedi agor cyfri hunanwasanaeth o'r newydd.

Rydym yn darparu gwasanaeth ffôn prydlon drwy Galw Gwynedd, sydd wedi gwella o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.




Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod lle i wella ymhellach gan mai 55% o'r trigolion a gysylltodd â Galw Gwynedd a roddodd sgôr o 10 allan o 10 am y gwasanaeth a ddarparwyd.

Mae mwy a mwy o drigolion Gwynedd bellach yn dewis cysylltu â'r Cyngor drwy ddulliau electronig. Yn ystod 2018/19, derbyniwyd 2,178,226 o ymweliadau unigol i Wefan y Cyngor. Dim ond 277 (0.01%) o'r ymwelwyr yma wnaeth gyflwyno cŵyn neu sylw negyddol am y wefan. Llwyddwyd i gyfarch mwyafrif helaeth y cwynion yn brydlon ac mewn ffyrdd a oedd yn datrys y broblem gyda 72% ohonynt yn cael eu datrys o fewn 3 diwrnod gwaith.

## Cyfathrebu


Mae cynnal deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd er mwyn i ni rannu gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor ac i glywed barn ein trigolion am y gwasanaethau hynny yn flaenoriaeth. Yn ystod 2018/19 fe wnaeth 5,960 o bobl Gwynedd ymateb i holl ymgynghoriadau cyhoeddus corfforaethol y Cyngor a rhoddwyd sylw penodol i sicrhau fod y Cyngor yn clywed llais carfannau penodol megis pobl ifanc, y gymuned LGBT+, lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid ac oedolion gydag anableddau dysgu.

**Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau**

Llwyddwyd i gynnal perfformiad o fewn y gwasanaeth gyda 93% o gofrestriadau marwolaethau yn cael eu cofrestru o fewn 5 diwrnod sy'n rhagori ar ddisgwyliadau'r Llywodraeth o 90%.

Ym mis Chwefror 2018 cynhaliwyd ymchwiliad gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol oedd yn nodi fod angen rhoi sylw i 12 pwynt gweithredu. Yn dilyn archwiliad arall 12 mis yn ddiweddarach, cydnabyddwyd bod 11 o'r 12 pwynt gweithredu wedi eu cyfarch.

**Cefnogi Busnes y Cyngor**




Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i wella ein trefniadau i asesu effaith cydraddoldeb pan yn llunio polisïau a gweithredu arnynt, ac fe gyhoeddwyd Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn fis Mehefin 2018, sy'n amlinellu'r 6 maes blaenoriaeth y bydd aelodau'r Bwrdd yn cydweithio arnynt er mwyn sicrhau'r gwasanaethau gorau i drigolion y ddwy sir. Mae gwaith ymchwil pellach i'w wneud cyn datblygu nifer o'r cynlluniau, ond byddwn yn parhau i gyfrannu at y cynlluniau hynny yn 2019/20.

**Uned iaith**

Rydym fel Cyngor wedi defnyddio'r hyn sydd wedi ei ddysgu dros y bum mlynedd a mwy diweddar er mwyn llunio 'Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023'.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym hefyd wedi datblygu perthynas waith agosach gyda gweddill Mentrau Iaith Cymru er mwyn cryfhau gwaith ein mentrau iaith ein hunain, sef Hunaniaith a Menter Iaith Bangor. Rydym yn rhoi pwysau mawr ar arfogi eraill i gynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na darparu yn uniongyrchol ein hunain.





**Ymchwil a Gwybodaeth**

Rydym yn ymwybodol iawn bod yr wybodaeth sydd ar gadw gennym am bobl ac adnoddau yn ddata sensitif a gwerthfawr.

Bu'n rhaid adrodd ar un digwyddiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth oherwydd ei ddifrifoldeb ond ni fydd camau ffurfiol yn ein herbyn yn sgil y ffaith bod gweithdrefnau priodol yn eu lle.

Nifer digwyddiadau gwybodaeth lle mae gwybodaeth am unigolyn wedi ei ddwyn/colli/mynd i'r cyfeiriad anghywir





Ein blaenoriaeth i'r dyfodol, wrth gwrs, fydd parhau i sicrhau fod pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddiogelu data, gan ail-gynnig hyfforddiant yn ôl yr angen, fel na fydd achosion tebyg yn digwydd i'r dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn mae'r nifer o geisiadau gan unigolion sy'n dymuno gweld gwybodaeth amdanynt eu hunain (ceisiadau diogelu data) wedi mwy na dyblu i 59. Gan na allwn flaenoriaethu ein cyllid er mwyn cyflogi neu arallgyfeirio staff i ymateb i'r cynnydd hwn

rydym wedi byw gyda'r ffaith mai 75% o'r ceisiadau hyn gafodd eu hateb o fewn yr amserlen ddisgwyliedig sef 1 mis calendr.

Ar ben hynny cafwyd 1,155 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod y flwyddyn.







Yn ystod 2018/19, cynhaliwyd nifer o brosiectau ymchwil sydd wedi cyfrannu naill ai at ddatblygu polisïau neu at wella gweithdrefnau mewnol, gan gynnwys yr ymchwil ar Ddatblygiadau Tai Newydd sef darn o waith cynhwysfawr ple holwyd preswylwyr tai newydd ar draws Gwynedd am eu rhesymau dros symud, ple roeddynt yn byw o'r blaen, iaith a siaredir ayb, ac yna dilyn y gadwyn ymlaen i'r tai wnaethon nhw symud ohonynt. Mae yna weithgor yn dadansoddi'r canlyniadau ar hyn o bryd, ond bydd yn sicr o fedru cyfrannu at waith a pholisïau ein hunedau tai a chynllunio i'r dyfodol.

**Prynu**

Yn ychwanegol at y gwaith ar y prosiect Blaenoriaeth Gwella 'Cadw'r Budd yn Lleol' bu'r Gwasanaeth Caffael hefyd yn cydweithio gydag adrannau ar draws y Cyngor er mwyn gosod cytundebau a threfniadau yn eu lle sydd wedi rhoi'r cyfle iddynt arbed arian. Yn ystod 2018/19 mae cyfleoedd wedi eu hadnabod er mwyn arbed cyfanswm o £239,280.

**Democratiaeth a Chyfieithu**



Pwrpas y Gwasanaeth Democratiaeth yw cefnogi Cynghorwyr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau a gweithredu er lles trigolion Gwynedd. Ar gyfer cyfnod 2018/19 cynyddodd y canran rhaglenni pwyllgorau sy'n cael eu cyhoeddi o fewn yr amserlen (o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod) i 97% yn 2018/19 o'i gymharu â 95% yn 2017/18.


Mae safon gwaith yr Uned Gyfieithu yn parhau yn wych drwyddo draw, gyda 28 allan o'r 29 holiadur bodlonrwydd a gwblhawyd yn sgorio'r gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig yn 5 allan o 5.

**Cefnogaeth Adnoddau Dynol**

Ym mis Awst 2018 daeth y Cyngor i gytundeb torfol â'r undebau llafur ar becyn o newidiadau i'r amodau gwaith. Un o'r ymrwymiadau a ddaeth allan o'r broses honno oedd yr angen i gryfhau'r berthynas rhwng yr undebau llafur a'r Cyngor yn gyffredinol. Erbyn hyn, ac ymhellach i'r cyfarfodydd misol oedd eisoes wedi'i sefydlu gyda'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol, mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol hefyd yn cynnal trafodaethau cyson â chynrychiolwyr yr undebau ar faterion sy'n benodol i'w gwasanaethau hwy.

Rydym yn falch iawn bod y newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2018/19 wedi golygu y bydd isafswm cyflog o fewn y Cyngor o fis Ebrill 2019 ymlaen yn codi i £9.18 yr awr. Mae hyn yn cymharu ag £8.21 ar gyfer y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r £9.00 yr awr sy'n cael ei gydnabod fel y Gwir Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r Cyngor hwn gyrraedd y nod o dalu isafswm cyflog sy'n uwch na'r hyn adnabyddir fel Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw.

Er i ni weld cynnydd yn nifer diwrnodau salwch fesul aelod o staff yn ystod 2018/19 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, rydym yn parhau i fod ymysg y cynghorau sydd â'r lefel isaf o absenoldebau salwch.




Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol i staff y Cyngor. Yn ystod 2018/19 datblygwyd modiwl electronig er mwyn cyflwyno mynediad ar-lein drwy system Hunan Wasanaeth Rheolwyr a Staff i wirio cofnodion troseddol staff (DBS). Mae gwaith pellach i'w wneud cyn y gallwn ddweud bod y system electronig newydd wedi cael gwared o fiwrocratiaeth papur yn llwyr, ac un cam pwysig yw aros i'r Comisiynydd Iaith edrych ar y mater o sicrhau gweinyddiaeth ddwyieithog y system.

Wrth gysylltu ag ymgeiswyr am swydd gyda'r Cyngor i ofyn eu barn ar y broses ymgeisio, cawsom ymateb ble roedd 100% yn hollol hapus gyda'r gwasanaeth. Tu cefn i'r canlyniad hwn y mae llawer o waith wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn er mwyn tynhau'r prosesau o fewngofnodi gwybodaeth er mwyn arbed amser staff.


**Dysgu a Datblgu'r Sefydliad**



Mae'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn cynnig cefnogaeth dysgu a datblygu i staff y Cyngor. Datblygiad newydd mwyaf cyffrous y flwyddyn oedd sefydlu ein Cynllun Prentisiaethau, gyda 3 Prentis eisoes wedi eu penodi. Bydd y Cynllun yn ymestyn eto yn 2019/20, gyda'r gobaith o gynyddu'r nifer yma i 20.

**Iechyd a Diogelwch**

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd gynnydd yn nifer y damweiniau y mae angen i'r Cyngor adrodd arnynt o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR).




Er mwyn sicrhau fod ein trefniadau iechyd a diogelwch mor gadarn ag y mae modd iddynt fod, mae'r Uned yn parhau i gynnal rhaglen o archwiliadau ac yn gwneud asesiad o unrhyw wendidau sy'n bodoli o fewn yr adrannau unigol ac yn trafod y gwendidau hynny gyda'r penaethiaid perthnasol.

**Blaenoriaeth Lleol**

Roedd edrych ar y posibilrwydd o gydweithio gyda Phartneriaeth Penllyn er mwyn trosglwyddo cyfrifoldeb dros adnoddau o fewn y gymuned er mwyn eu galluogi i ddefnyddio incwm i gynnal gwasanaethau lleol wedi ei


adnabod fel blaenoriaeth yn ardal Penllyn. Mae trafodaethau wedi eu cynnal a byddant yn parhau er mwyn ceisio datblygu model amgen ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb dros yr adnoddau o fewn y gymuned.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'u teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu gwasanaeth cyfreithiol cyflawn i holl adrannau'r Cyngor. Er mwyn creu incwm rydym hefyd yn darparu'r gwasanaeth i gleientiaid allanol. Rydym yn derbyn adborth cadarnhaol cyson, gydag arolwg boddhad cwsmeriaid 2018/19 yn dangos bod 84% o gleientiaid yn nodi eu bod yn hollol fodlon (sgôr o 10 allan o 10) gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Rydym yn ymchwilio ymhellach i ddarganfod y rhesymau pam nad yw'r 16% sy'n weddill yn hollol fodlon er mwyn gweld a allwn wneud rhywbeth yn ei gylch.




Un ffactor cyffredin y gwyddom amdano yw bod adeiladu gwell dealltwriaeth gyda chleientiaid ynglŷn ag ardrawiad ffactorau megis prosesau cyfreithiol allanol ar amserlenni disgwyliedig. Byddwn yn rhoi sylw i hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.



Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am weinyddu holl etholiadau'r Sir. Yn ystod 2018/19 rydym wedi gweinyddu'r etholiadau ar gyfer 3 isetholiad.

Yn ystod 2018/19 cynhaliwyd a chwblhawyd y canfas blynyddol. Drwy adolygu ein dull gweithredu er mwyn gwneud gwell defnydd o adnoddau a thechnoleg, y gobaith yw gallu cynyddu cofrestru i bleidleisio ymysg ardaloedd a grwpiau sydd yn llai tueddol o fod ar y gofrestr. Byddwn yn asesu llwyddiant yr arbrawf yn y flwyddyn i ddod.